PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

75c | Rhif 454 | Rhagfyr 2022



**Cerddwyr prysur**

t.13

**Cwis Nadolig Y Tincer**

t.19

**Cystadleuaeth y Tincer i blant bl.5 a 6**

t.4

# Cardis yn Qatar







Gwelwyd tipyn o gefnogwyr lleol yn teithio allan i Qatar ar gyfer Cwpan y Byd a da oedd gweld enwau lleol ar faneri. Gwelir hefyd t19.







## Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 07737 622034
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 07939 652273
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, Y Nyth, Llanilar, Aberystwyth, SY23 4NZ
☎ 01974 241087
ionadavies752@btinternet.com
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cêt Morgan**
Fferm Glanfrêd, Lôn Glanfrêd, Llandre SY24 5BY
cetmorgan@icloud.com 07966 510195
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**ADOLYGIADAU LLYFRAU**
**Llinos Dafis**, Cedrwydd, Llandre
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223
**COLOFN BLE MAE NHW NAWR**: Iona Davies

**TINCER TRWY'R POST –**
**Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Esther Prytherch** ☎ 07968 593078
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Heulwen Lewis**, Deiniol, Capel Bangor
☎ 880413 heulwenlewis@btinternet.com
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**RHIFYN IONAWR Dyddiad cau** Ionawr 6 **Dyddiad cyhoeddi** Ionawr 18

**RHAGFYR 15** Nos Iau Plygain draddodiadol yn Eglwys St Ioan am 7.00

**RHAGFYR 16** Nos Wener Nos Wener, 16 Rhagfyr, Cymdeithas Lenyddol y Garn 'Dathlu'r Nadolig' yng nghwmni Aled Myrddin a'r teulu yn festri'r Garn am 7.30 o'r gloch

**RHAGFYR 20-21** Dyddiau Mawrth a Mercher Cwmni Mega yn cyflwyno 'Y bachgen bach gwyrdd' yn Theatr y Werin am 10.00 a 13.00 (Mawrth) a 10.00 (Mercher). Tocynnau – postcwmnimega@hotmail.com

**RHAGFYR 20** Dydd Mawrth Gweithdy Nadoligaidd gan Beti Wyn Davies Cymdeithas Trefnu Blodau Aberystwyth a'r Cylch yn Neuadd Llanfarian am 7.00

**RHAGFYR 21** Nos Fercher Gwasanaeth traddodiadol o lithau a charolau gyda Seindorf Aberystwyth yn Eglwys St Mihangel, Llanfihangel Genau'r-glyn am 7.00. Lluniaeth ysgafn ar ôl y gwasanaeth Croeso cynnes i bawb

**RHAGFYR 24** Prynhawn Sadwrn Gwasanaeth Cymun Bendigaid Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor am 2.30

**2023**
**IONAWR 17** Nos Fawrth Noson Aelodau Cymdeithas Trefnu Blodau Aberystwyth a'r Cylch yn Neuadd Llanfarian am 7.00

**IONAWR 18** Nos Fercher Cip ar y Coleg - Steve Thomas Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb am 7.30

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Tachwedd 2022

**£25** (Rhif 42) Linda Jones, Y Berllan, Llandre
**£15** (Rhif 101) Gwynfryn Evans, Y Ddôl, Llandre
**£10** (Rhif 64) Stephen Williams, Llys y Coed, Penrhyn-coch

Fe dynnwyd y rhifau buddugol ym Mhwyllgor Sioe Capel Bangor
Cofiwch os ydych yn aelod o'r cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plis rhowch wybod i'r trefnydd Bethan Bebb 01970880228 neu ar ebost m.e.bebb@talk21.com
Mae yn amser adnewyddu eich aelodaeth erbyn Ionawr 1. Os oes rhywun a diddordeb i ymuno cysylltwch gyda'r trefnydd.

Hoffai **Ceris Gruffudd** ddymuno Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i gyfeillion a darllenwyr y Tincer.
Yn ôl f'arfer ni fyddaf yn gyrru cardiau Nadolig ond yn cyfrannu i elusen – eleni Cerebral Palsy Cymru.



---

Dymuna Mair Evans, Glan Ceulan, Penrhyn-coch Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i'w chyfeillion.




Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

## 30 mlynedd yn ôl



Corner House, Penrhyn-coch, ar ôl y tywydd stormus yn ddiweddar. Bwriedir tynnu y bwthyn i lawr i ledu'r ffordd a gwneud cylchdro yna gan weddnewid Sgwâr y pentref. Bwriedir cychwyn ar y gwaith yn fuan yn y flwyddyn newydd. Yn wreiddiol roedd yn un o bedwar bwthyn, gyda thri arall i'r chwith ohono - lle saif 'Bronllwyn' heddiw. (O'r *Tincer* Rhagfyr 1992)

# CYLCH CINIO

Dychwelyd i Glwb Pêl Droed Penrhyn-coch fu hanes Cylch Cinio Aberystwyth ar gyfer cyfarfod mis Tachwedd. Roedd yn braf bod yn ôl yno a chafwyd pryd blasus iawn o fwyd a chroeso cynnes.

Gwahoddwyd merch leol, Angharad Fychan i'n plith fel siaradwraig wâdd a bu'n olrhain pwysigrwydd mynachlog Ystrad Fflur ar yr ardal. Un o brif ddiddordebau Angharad yw enwau llefydd a dangosodd i ni drwy gyfrwng darluniadol nifer helaeth o enwau lleoliadau ac adeiladau dros Geredigion gyfan sy'n deillio o gysylltiad a'r fynachlog. Roedd dylanwad y mynachlogydd fel tirfeddianwyr dylanwadol yn aruthrol fawr o'r mynydd i'r môr, ac mae'n anodd i ni heddiw amgyffred impact y sefydliadau hyn ar ddiwylliant, amaeth, crefydd a bywyd yn gyffredinol yn yr ardaloedd hyn. Angharad yw Ysgrifennydd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru ac mae wedi cyfrannu yn sylweddol iawn at gyfoethogi gwybodaeth yn gyffredinol am darddiad ac ystyr enwau yng Nghymru. Diolchwyd iddi ar ran aelodau'r Cylch Cinio gan Paul Davies a ddisgrifiodd y noson fel agoriad llygad.

Enillwyd y raffl gan Yr Athro Geraint Vaughan. Croesawodd y Cadeirydd John Williams aelod newydd i'r Cylch sef Richie Jenkins, Penrhyn-coch. Bydd ein Cinio Nadolig ar Ragfyr 9fed ac mae yna edrych ymlaen mawr iawn at gael dychwelyd i Westy'r Richmond Aberystwyth ar gyfer y noson hon. Croeso i ragor o aelodau newydd ymuno â ni drwy gysylltu â'r Ysgrifennydd ymlaen llawn huw_williams1@btinternet.com

## CYFEILLION Y TINCER

### FFURFLEN GAIS SWYDDOGOL I YMUNO Â'R CLWB

ENW LLAWN ____________________

CYFEIRIAD ____________________

____________________

____________________

CÔD POST ____________________

RHIF FFÔN ____________________

**Dychweler i Bethan Bebb, gweler ei manylion ar dudalen 2**

**TALIADAU**
Ticiwch y bocs priodol os gwelwch yn dda

☐ Arian neu siec

☐ Archeb banc

**DATGANIAD**
Dymunaf ymaelodi â Chlwb Cyfeillion Y Tincer a deallaf y bydd gofyn i mi dalu £10 am flwyddyn o Aelodaeth sydd yn cynnwys dau rif. Tynnir y rhifau yn fisol yn ystod 10 sesiwn plygu'r Tincer.

Cyhoeddir y rhifau buddugol yn Y Tincer

Llofnod ____________________

Dyddiad ____________________

## Llythyr

Annwyl Olygydd
Hoffwn fynegi fy niolch i bawb a noddodd fi yn ddiweddar ar gyfer fy nhaith i'r Wladfa. Llwyddais i godi £4,298.00 i Nyrsys Marie Curie ac heb gefnogaeth cyfeillion a chydnabyddion ni fyddai'r daith wedi bod yn bosib.

Mae Nyrsys Marie Curie yn cynnig gwasanaeth gwerthfawr i deuluoedd pan mae aelod a salwch derfynnol a mae'r arian o weithgareddau fel hyn yn sicrhau bod y gwasanaeth am ddim. Os oes unrhyw un am gyfrannu gallwch wneud trwy "JustGiving" ar www.justgiving.com/fundraising/eirian-reynolds1 cyn diwedd y flwyddyn.

Diolch yn fawr unwaith eto i bawb a gefnogodd fi ar beth oedd, i fi, yn daith fythgofiadwy.

Yn gywir
Eirian Reynolds,
63 Ger-y-llan, Penrhyn-coch
Aberystwyth, Ceredigion
SY23 3HQ 01970 820124
e.reynolds304@btinternet.com

---

Annwyl olygydd
Ysgrifennaf atoch o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn y gobaith y bydd y wybodaeth isod o ddiddordeb i'r darllenwyr.

Rydym eisiau lledaenu'r gair fod ysgoloriaeth gwerth hyd at £2,000 ar gael i fyfyrwyr sydd â diddordeb mewn gwybod mwy am fod yn diwtor Dysgu Cymraeg i oedolion neu athro / athrawes Cymraeg.

Mi fyddwn yn talu £500 yr wythnos i ymgeiswyr llwyddiannus, gan gynnig pythefnos yng Nghaerdydd yn dysgu mwy am faes Dysgu Cymraeg i oedolion a phythefnos mewn ysgol uwchradd yn arsylwi gwersi Cymraeg. Mi all ymgeiswyr llwyddiannus ddewis faint o wythnosau maen nhw'n dymuno eu gwneud.

Mae yna alw cynyddol am diwtoriaid ac athrawon Cymraeg ledled Cymru, ac rydym angen cyflenwad cyson o dalent newydd.

Mi all myfyrwyr sy'n astudio unrhyw bwnc wneud cais – 'dyn ni'n chwilio am bobl ifanc all ysbrydoli eraill i ddysgu a siarad Cymraeg, gyda sgiliau cadarn yn y Gymraeg eu hunain.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 31 Ionawr, 2023 ac mae modd gwneud cais trwy wefan y Ganolfan – dysgucymraeg.cymru

Diolch ymlaen llaw a chofion gorau
Helen Prosser,
Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu y Ganolfan.

# Cystadleuaeth y Tincer i blant blynyddoedd 5 a 6

Testun cystadleuaeth y Tincer i blant blynyddoedd 5 a 6 eleni yw Fy ngobeithion am 2023

Gellir ei gyflwyno mewn unrhyw gyfrwng – e.e. ar ffurf cerdd/ stori/ portread/ dyddiadur/ erthygl unai yn ysgrifenedig neu fel animeiddiad/ ffilm fer/ fideo



Y beirniad fydd Twm ac Angharad Inc. Bydd tair gwobr - tocynnau llyfr 1af £15, 2il £10 3ydd £5.

Noddir y gwobrau gan Anwen Pierce a'r Golygydd.

Beth am fynd ati ddisgyblion blynyddoedd 5 a 6 a gyrru eich gwaith gydag enw ac enw ysgol neu gyfeiriad cartref i'r Golygydd d/o Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3HE neu i Ytincer@gmail.com cyn dydd Llun 9 IONAWR 2023.

## Aber-ffrwd a Chwmrheidol

**Urdd y Gymuned**

Cynhaliwyd noson gymdeithasol lwyddiannus yn y Ganolfan Groeso. Daeth tyrfa dda ynghyd a chafwyd digon o fwyd blasus iawn. Hyfryd oedd cael cyfarfod a nifer o newydd ddyfodiaid i'r ardal ac mi roedd yn braf gweld cymaint o blant yn bresennol. Edrychwn ymlaen i'r parti Nadolig ar nos Sadwrn Rhagfyr 17. Mae dipyn o waith gan Sion Corn i wneud eleni!!

**Llyfr newydd**

Cafodd llyfr diweddaraf Peter Lord ei lawnsio mewn digwyddiad yn y Llyfrgell Genedlaethol yn ddiweddar. Ffrwyth cydweithio gyda Dr.Rhian Davies yw y gyfrol yma ac maent wedi bod yn ymchwilio i ddelwedd cerddoriaeth Gymreig o dan y teitl *Brandio y Genedl Gymreig*. Roedd y lawnsiad yn llwyddiannus iawn gyda tua cant a hanner o bobl yn bresennol. Llongyfarchiadau a phob hwyl gyda gwerthiant y llyfr.

**Beirniad prysur**

Dafydd Morris, Neuadd Parc, oedd yn beirniadu Adran C y cobiau Cymraeg yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd eleni. Cafodd fore prysur iawn gyda nifer dda o geffylau ymhob dosbarth. Llongyfarchiadau mawr.





SIOP Y PETHE

Llyfrau, Cardiau Cyfarch a Cherddoriaeth a llond llawr o Grefftau ac Anrhegion

01970 617120

Nawr yn cynnig gwasanaeth Cliciwch a Casglwch ar ein gwefan

www.siopypethe.cymru



inc

Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.

CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION

13 Stryd y Bont, Aberystwyth

01970 626 200





**Rhifyn Ionawr**

Dyddiad cau: Ionawr 6

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 18

# ANRHEG DELFRYDOL

**Teulu yng Nghanada?**
**Un o'r plant yn y Coleg yng Nghaerdydd?**
**Modryb yn Llundain?**

Beth am ddatrys y broblem o beth i'w roi iddynt yn anrheg Nadolig a rhoi tanysgrifiad blwyddyn o'r Tincer iddynt.

Gellir trefnu ei yrru drwy'r post i unrhyw le yng Nghymru neu weddill Ynysoedd Prydain am gost o £20 y flwyddyn.

Neu gellir gyrru copi digidol trwy ebost am £7 y flwyddyn.

Os hoffech fanteisio ar y cynnig, gan ddechrau â rhifyn mis Rhagfyr, llenwch y ffurflen isod a'i dychwelyd cyn gynted ag y bo modd gyda'r tâl priodol i
Edryd ac Euros Evans
33 Maes Afallen
Bow Street, Aberystwyth
Ceredigion SY24 5BL

Enw…………………………………………………………………………………

Cyfeiriad………………………………………………………………………

Hoffwn yrru 10 rhifyn o'r Tincer i'r person isod, ac amgaeaf y tâl priodol o £20 /£7
NEU
Rwyf wedi talu y tâl priodol o £20 /£7 trwy BACS i
**Enw'r Cyfrif**: Y Tincer **NATWEST**
**Rhif y Gangen**: 51-61-06 **Rhif y Cyfrif**: 01833502

Llofnodwyd……………………………………………………………………
Y Tincer (Papur / e-bost) i'w yrru i

Enw…………………………………………………………………………………

Cyfeiriad………………………………………………………………………

## Dôl-y-bont

**Cofion**
Anfonwn ein cofion at Sŵ Gerallt Jones Leri, sy'n treulio cyfnod yn ysbyty Tregaron ar hyn o bryd yn dilyn arhosiad yn Ysbyty Bron-glais. Gobeithio y cawn eich croesawu nôl i'r pentref erbyn y Nadolig.

## Dolau



**Ffarwelio â John a Beryl Hughes yn Noddfa - gweler t18.**

# Myfyrdod y Nadolig

Y tu allan I Eglwys St Martin-in-the-Fields yn Llundain, ceir cerflun wedi ei naddu o ddarn o garreg Portland. Mae ei siap yn hirsgwar a'r ochrau wedi eu llyfnhau yn gelfydd. O gwmpas y pedair ochr ceir dyfyniad o'r Prolog i Efengyl Ioan: 'A'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd, ac a drigodd yn ein plith yn llawn gras a gwirionedd'.

Mae'n arwyddocaol bod y cerflun yn wynebu Sgwâr Trafalgar, a'i brysurdeb a'i dwrw parhaus; man ymgynnull yw i bob math ar bobl, ond enwedig i'r rhai hynny sydd a phroblemau cymdeithasol. Ac mae'n briodol mai y tu allan i eglwys Sant Martin y codwyd y cerflun gan fod i'r eglwys hon draddodiad hir o estyn ymeledd i'r truan a'r anghenus. Yma y bu Dick Sheppard yn ficer, ac yn ystod y cyfnod hwnnw (1914-1926) daeth crypt yr eglwys yn ganolfan gymdeithasol a oedd yn gwasanaethu miloedd ar filoedd o anffodusion y ddinas, ac yn noddfa i filwyr ar eu ffordd i faes y gad ac wedi hynny wrth ddychwelyd o'r Rhyfel Fawr. Pan ddechreuodd Dick Sheppard ar ei weinidoaeth, nifer yr addolwyr yn eglwys Sant Martin oedd chwech yn y bore a saith yn yr hwyr. Un ar ddeg oedd yn bresennol yn ei gyfarfod sefydlu. Ond yn fuan gwelwyd y gynulleidfa'n gorlenwi'r adeilad. Pan fu farw Dick Sheppard yn 1937, dygwyd ei gorff yn ol i'r eglwys lle y cyflawnodd ei weinidogaeth ryfeddol, ac aeth dros gan mil o bobl heibio i'w arch i dalu gwrogaeth iddo. Heddiw fe welwch o hyd rai o glwyfedigion ein hoes ni – y digartref, y rhai sy'n gaeth i gyffuriau ac i alcohol – yn gorweddian ar y palmant, gan ddisgwyl o hyd i rywrai, yn enw Crist, drugarhau wrthynt.

Mae'r cerflun y tu allan i byrth eglwys Sant Martin yn dangos yn eglur ddigon mai i fyd yn llawn gwae a gwewyr y ganwyd baban Bethlehem. Nid i fyd perffaith y daeth, ond i fyd o anghyfiawnder a dioddefaint, byd wedi ei lygru gan bechod a'i halogi gan drachwant.

Ar un olwg y mae baban yn greadur eiddil a gwantan, cwbl ddibynnol ar eraill am ofal a chynhaliaeth. Mae'r cyfan y saif baban Bethlehem drosto yn ynddangos yn hynod fregus y Nadolig hwn, a swn rhyfel a therfysg i'w glywed yn y Ucraine a gwledydd eraill o hyd. Y rhai addfwyn yn etifeddu'r ddaear, a gwneuthurwyr tangnefedd yn wynfydedig! Pwy, mewn difri, sy'n credu hynny?

Ac eto, er pob gwendid ymddangosiadol, y mae baban yn ddygn a gwydn, ac yn meddu ar ewyllys gref I fyw ac I oroesi. Goroesi fu hanes baban Bethlehem, er gwaethaf bygythiad Herod. Goroesi fu hanes ei Efengyl, hithau. Nid baban mohono, bellach, ond brenin, a rhyw ddydd bydd ei deyrnas yn cwmpasu'r ddaear gron; rhyw ddydd, 'gwneir y tir ysgythrog yn llyfn, a'r tir anwastad yn wastadedd' (Eseia 40:4). Nid ydym yn ddiobaith. Y mae 'Tywysog Tangnefedd yn dathlu'I ben-blwydd' a ninnau'n gwybod trwy ffydd, mai Ef piau'r orsedd.

*Daeth Brenin yr hollfyd i oedfa ein hadfyd er symud ein penyd a'n pwn.*

**Nicholas Bee**

# Madog, Dewi / Cefn-llwyd

Oedfaon Madog
2.00
*Ionawr*
**8** Bugail
**29** Bugail

**Marchnad Aberystwyth 3/12/2022 (1565)**

Roedd y trêd yn wych heddiw ar y defaid lladd, yn enwedig os oedd cig ar y defaid a'r ŵyn, olygodd amcangyfrif da cyffredinol. Roedd y trêd ar yr Ŵyn Stôr yn well nac yn y sêl flaenorol.

Roedd yr amcangyfrifon fel a ganlyn:

Brokers (661) Amcg £50 Mwy £128 gan Evans, Brynawel, Cnwch-coch

Hyrddod (49) Amcg £86 Mwy £140 from Evans, Pendre, Llanfihangel-y-Creuddyn


Ŵyn stôr (855) Amcg £53.20 Mwy £125 from Llyr Evans, Cwmwythig.



Rydym yn falch i ni gynorthwyo Monica Davies, Ffosbompren, Llanilar yn ddiweddar i godi arian i Uned Cemotherapi Ysbyty Bronglais. Cododd Monica bron i £15,000 - £6317 ohono ym Marchnad Aberystwyth yn dilyn rhoddion caredig o ddefaid gan fasnachwyr lleol. Diolch i bawb am y gefnogaeth. Cynhelir y Sêl Nesaf ar 7fed Ionawr 2023

# Llandre

**Diolch**
Dymuna Lowri, Iestyn a Ffion ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad ac am yr holl roddion hael at ward gofal dwys Bron-glais i goffau Alun.



**Ar Noson Lawen**
Llongyfarchiadau mawr i Miri Llwyd ar ei pherfformiad arbennig iawn o'r gân Bytholwyrdd ar Noson Lawen ar S4C – gallwch wylio et oar wasanaeth CLIC NEU AR YR iplayer.



**Tachwedd 19 Cynhaliwyd rownd Aberystwyth o gystadleuaeth Cerddor Ifanc y Rotari Llongyfarchiadau mawr i Gruffydd Siôn am ennill y gystadleuaeth offerynnol - bydd yn mynd ymlaen i gynrychioli'r ardal yn y rownd nesaf!**

BRIDGE HOUSE CLEARANCE
Gardd neu Sied – Gwaredu Ysbwriel
Cartrefi a Busnesau
Trwydded i Gludo Gwastraff
Gwerthu eich ty? Gallwn ei glirio
Yswiriant llawn, Pris am ddim
f 07792457816/01974 261758


GWASANAETH GARDDIO ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
07813 338647

Bancydarren, Capel Dewi, Capel Madog, Cefn-llwyd, Cwmerfyn, Cwmsymlog, Llwyn-prysg, Penrhiwnewydd, Pen-bont Rhydybeddau, Penrhyn-coch, Salem
Gwefan Cymuned Trefeurig
trefeurig.cymru
- Newyddion diweddaraf
- Hanes a hen luniau
- Cyngor Cymuned
- Mudiadau
- Y Tincer
Gwefan Trefeurig Website   Trefeurig8
whhowells@gmail.com



*Cyfarwyddwyr Angladdau*
*C. T. Evans*
*Perchnogion : Gwyn & Janet Evans*
*Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY23 5BS*
*Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn.*
*Wedi ei arwain yn Bersonol gyda Urddas.*
*Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Ddydd a Nos.*
*Ffôn 01970 820013*
*ebost : gwyn@ ct-evans.com*

WEST WALES ANTIQUES CAPEL BANGOR
Ydych chi angen gwerthu hen bethau, neu efallai angen gwacâu tŷ?
• Dodrefn • Arwyddion Enamel • Tacsidermi • Peintiadau • Cerflunwaith a Dodrefn Ardd • Hysbysebion • Carthenni • unrhywbeth hen neu anarferol!
Prynwr a Gwerthwr Hen Bethau
www.west-walesantiques.co.uk 07866 005996 dryburghantiques@gmail.com






## Cyngor Cymuned **Melindwr**

Cyfarfu'r Cyngor nos Iau Tachwedd 17 dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Jim Palmer. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth dau gynghorydd a hefyd y Cynghorydd Sir. Derbyniwyd cofnodion cyfarfod mis Hydref fel rhai cywir.

Roedd un cais cynllunio wedi dod I sylw y Cyngor sef A220793 – Fferm Tyllwyd, Capel Bangor. Nid oedd gwrthwynebiad i'r cais. Trafodwyd cyllideb 2023/2024 a chytunwyd i gadw y praesept yr un peth a llynedd. Cytunwyd i rhoi cyfraniad o £25 tuag at Ffair Nadolig Ysgol Pen-llwyn.

Atgoffwn fod Cyngor Cymuned Melindwr yn gwahodd ceisiadau am grantiau bychain oddi wrth fudiadau lleol i gefnogi prosiect neu weithgaredd. Gofynnir i'r ceisiadau gynnwys y canlynol:

- Amlinelliad o'r prosiect / gweithgaredd a'i fudd i'r ardal neu i'r brodorion.
- Manylion o gyllid y prosiect / gweithgaredd a pha elfennau y mae y cais yn ei ariannu.
- Copi o fantolen ariannol diweddar y mudiad.

Mae angen danfon y ceisiadau i Lynne B Davies (Clerc Cyngor Melindwr), ebost cyngormelindwrcouncil@gmail.com. Rhaid derbyn y ceisiadau erbyn Rhagfyr 31 2022. Bydd y ceisiadau yn cael eu trafod yng nghyfarfod Ionawr 2023.

Mae y Cyngor Cymuned yn gobeithio trefnu hyfforddiant i aelodau y gymuned ar sut i ddefnyddio diffibriliwr yn Ionawr 2023

Dymuna'r Cyngor Cymuned Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i drigolion Melindwr. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Iau Ionawr 19eg 2023 am 7.30yh yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor.

## Goginan

**Cwpan y Byd**

Bu Ioan Bebb, Blaendyffryn gynt, yn cael ei gyfweld tipyn ar y cyfryngau yn ystod yr wythnosau diwethaf gan ei fod wedi bod yn athro ymarfer corff i Ben Davies, Rubin Collwill - aelodau o garfan tîm Cymru yn Qatar. Braf oedd clywed y ddau chwaraewr yn siarad Cymraeg mewn cyfweliadau ar ôl mynychu Ysgol Ystalyfera.


**Marwolaeth**

Trist yw cofnodi y bu Olga Kittle, Haulfryn, farw ar Dachwedd 17 yn ysbyty Bron-glais yn 68 oed. Fe fu yn rhedeg y Druid gyda'i diweddar ŵr, Jim ac ar ôl ymddeol fe symudodd y ddau i Gwmbrwyno. Buont yn mwynhau teithio i wahanol lefydd dros y byd yn gyson. Roedd Olga yn dal yn gweithio fel glanhawraig hyd bron y diwedd yng Ngogerddan. Fe fydd amryw yn gweld ei heisiau a roedd y dorf ddaeth i'r amlosgfa ar Ragfyr yr ail yn adlewyrchu ei phoblogrwydd. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda Wayne, ei mab, Jay ei ŵyr, a'i brodyr a chwiorydd yn enwedig Lynette a Bryn Price, Panteg.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn gyda theulu Penbryn ar golli chwaer a modryb – sef Eluned Roberts ar 20 Tachwedd yn Llanrhystud. Braf yw deall fod Idloes yn gwella o'i lawdriniaeth a gafodd yn ddiweddar.


**Cronfa Eleri**



**Blwyddyn 2022 – dros £28,300 i'w rannu**

Gwahoddir ceisiadau am gymorth i gynlluniau sy'n gydnaws ag amcanion y Gronfa

Ffurflen gais a manylion ar gael o: **cronfaeleri.cymru**

Neu gan: Ysgrifennydd Cronfa Eleri
Garreg Wen
Tal-y-bont
Ceredigion SY24 5HJ

**Tel:** 01970 832551 **e-bost:** ymholiadau@cronfaeleri.com

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Ionawr 12fed 2023**

**Amcanion Cronfa Eleri**

*'Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwylliannol cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu'*



James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU

*Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

james.memorials@btconnect.com



SIOP
**SGIDIAU GWDIHW**
8 Ffordd Portland
Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092

Shan ac Alys Jones

GWASANAETH
**GOFAL TRAED**
Ceiropodyddion /podiatryddion graddedig ac wedi cofrestru efo'r
MRCPod



**D J Evans Cyfarwyddwyr Angladdau**

Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad

Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ

Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
djevansfuneraldirectors@gmail.com

**Aberystwyth 01970 615328**
**Penrhyn-coch 01970 820249**
**Machynlleth 01654 700006**





STORFA CANOLBARTH CYMRU
MID WALES STORAGE

Storfa Cartref a Busnes

Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 Awr
Wedi ei wresogi

Bocses a 'bubblewrap' ar lein
www.boxshopsupplies.co.uk

Wales Removals
Ffôn: 01654 703592
Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
www.midwalesstorage.co.uk

# Y Borth

**Fy Hoff Le**



Mac colofn 'Fy hoff le' ym mhob rhifyn o gylchgrawn Undeb Cymru a'r Byd *Yr Enfys* lle mae 3 pherson ym mhob rhifyn yn dweud lle mae eu hoff le yn y byd. Yn rhifyn Gaeaf 2022 un o'r cyfranwyr yw ysgrifennydd newydd yr Undeb, Gwion Ellis-Williams – brodor o Fethesda, Gwynedd, sydd yn byw bellach gyda'i bartner Nia (ddaw o Aberteifi) a'u merch fach bedair oed, Celyn Mai ac Arth y ci yn Nhrevelin, yr Andes, Patagonia.

Maent wrthi yn adeiladu gwesty bach chwe llofft ar gyfer ymwelwyr a'r ardal.
A'i hoff le? Ynys-las!

Pam? "Mi fues i'n ddigon ffodus i gael gweithio yn Ynys-las tra ro'n i;n cwblhau gradd mewn cadwraeth ym Mhrifysgol Aberystwyth. Roedd o yn gyfle arbennig i ddod i adnabod bywyd gwyllt unigryw'r twyni. Mae'n lle prysur iawn dros yr haf, a ro'n i wrth fy modd yn codi gyda'r wawr er mwyn gwneud arolwg adar, a chael y lle i gy o fo fy hun. Dyma fi gyda Jac, oedd hefyd yn hoff iawn o fynd am dro yno!

**Cydymdeimladau**

Cydymdeimlwn â Catherine, Rheinallt, Eleanor a Steffan, Glanleri, ar farwolaeth mam Catherine yn ddiweddar.

â Rhiannon a Neeson Richards, a'r teulu ar farwolaeth eu mab Dylan yn Norwich ar 18 Tachwedd.

A'r Tincer yn mynd i'r wasg clywyd am farwolaeth yr Athro Des Hayes, Caerfyrddin ar 11 Rhagfyr. Estynnwn ein cydymdeimlad a Nansi Hayes a'r teulu – y rhoddwyd sylw iddynt yn Nhincer mis Hydref.

**Brysiwch wella**

Dymunwn yn dda i Rob Hunt, Y Graig ar ôl iddo fod yn Ysbyty'r Waun yng Nghaerdydd yn derbyn llawdriniaeth.



## Nofio San Steffan

Unwaith eto eleni, mae Grŵp Amnest y Borth yn trefnu nofiad bach yn y môr ar ddydd San Steffan, dydd Llun 26 Rhagfyr. Gofynnir i nofwyr dewr ymgynnull ar y traeth rhwng gorsaf y bad achub a'r clogwyni erbyn hanner dydd. Trefnir y digwyddiad gan grŵp Amnest y Borth i godi arian at waith yr elusen ac awgrymir cyfraniad o £5. Y llynedd, fe fentrodd dros 40 o blant ac oedolion i'r dŵr gan godi dros £200 ar gyfer Amnest Rhyngwladol. Awgrymir cyfraniad o £5.

**Gwasanaethau'r Nadolig**

Bydd amrywiaeth o wasanaethau'n cael eu cynnal yn Eglwys Sant Matthew eleni i ddathlu'r ŵyl, dan ofal y Parchedig Nicholas Bee.

Ar ddydd Sul 18 Rhagfyr, pedwerydd Sul yr Adfent, bydd gwasanaeth Naw Llith a Charolau am 11.15yb.

Am 5yp ar ddydd Llun 19 Rhagfyr, bydd plant ysgol Craig yr Wylfa yn cynnal eu gwasanaeth carolau yn yr Eglwys.

Ar noswyl Nadolig, ddydd Sadwrn 24 Rhagfyr, bydd gwasanaeth carolau i bawb am 3yp gyda gwin y gaeaf a mins peis i ddilyn a bydd yr offeren ganol nos yn cychwyn naill ai am 11 neu 11.30yh (yr union amser i'w gadarnhau).

Ni fydd gwasanaeth yn Eglwys Sant Matthew ar Ddydd Nadolig ond bydd gwasanaethau yn Eglwys Fach am 9.30yb ac yn Llandre am 10yb.





## Ffair Nadolig Elusennau'r Borth

Daeth pobl o bob oed ynghyd yn Neuadd Gymunedol y Borth ar ddydd Sadwrn 3 Rhagfyr ar gyfer Ffair Nadolig Elusennau'r Borth. Dyma'r tro cyntaf i'r ffair gael ei chynnal ers 2019 ond roedd y gefnogaeth gan y gymuned leol mor gref ag erioed.

Trefnwyd y digwydd gan Joy Cook fel y bu'n gwneud yn y blynyddoedd cyn y pandemig ac mae diolch mawr iddi am ei holl waith caled. Ymhlith yr elusennau ddaeth â'u stondinau codi arian roedd Cymdeithas Rieni Ysgol Craig yr Wylfa, Clwb Pêl-droed y Borth; Clwb Ieuenctid a Hwb Cymunedol y Borth; Amgueddfa Reilffordd y Borth; RNLI y Borth; Nofwyr y Borth; WI y Borth; Cymdeithas Henoed y Borth; Gerddi Cymunedol y Borth; Eglwys Sant Matthew, y Borth, ac Eglwys yr Holl Seintiau, Llangorwen.

Roedd cyfle hefyd i blant lleol dalu ymweliad cynnar â Siôn Corn a'i gorachod bach mewn groto Nadoligaidd a grëwyd gan Dylan Taylor.

Diolch hefyd i holl wirfoddolwyr a rhieni Hwb Cymunedol y Borth am eu cyfraniadau; i Shelley Foulkes, Amanda Mallows, Dylan ac Ewan Taylor am eu gwaith caled ar y dydd, ac wrth gwrs i Santa am ganfod amser yn ei galendr prysur i alw heibio.

**Noson Gwis Nadoligaidd**
Bydd cwis Nadoligaidd yn cael ei gynnal yng nghanolfan Seren y Môr / Star of the Sea yn y Borth am 7.30yp nos Fercher 28 Rhagfyr. Bydd y gost o gymryd rhan yn £1 y pen ac mae croeso i bawb ymuno yn yr hwyl.

Cynhaliwyd noson ag iddi naws Nadoligaidd braf yn Seren y Môr ar nos Iau 8 Rhagfyr, gydag adloniant gan Gôr y Gors a chôr Arising, y gantores Nel Jenkins a'r bardd Gabriel Jones.

**Gweithgareddau Nadolig yn yr Hwb**
Cynhaliwyd prynhawn o ganu carolau, gwledda a gweithgareddau hwyliog yn Hwb Cymunedol y Borth ar Ffordd Clarach ar ddydd Gwener 9 Rhagfyr. Bydd caffi cymunedol ola'r flwyddyn ar ddydd Gwener 16 Rhagfyr rhwng 11.30 a 1y.30yp, a sesiwn ola'r Gofod Croeso Cynnes ar gyfer 2022 ar yr un diwrnod. Bydd y sesiynau yn ail gychwyn yn y Flwyddyn Newydd.

**Cydymdeimlad**
Bu farw Cyd Clare ar ddydd Mercher 30 Tachwedd yn 96 oed. Roedd yn gyn aelod o Wylwyr y Glannau yn lleol a chriw bad achub y Borth. Bu hefyd yn rhedeg siop wlân a gwnïo Clare's ar y Stryd Fawr yn Aberystwyth am flynyddoedd. Estynnwn gydymdeimlad i'r teulu.

Estynnir pob cydymdeimlad hefyd â theulu Arthur Theophilus Bryan a fu farw yn 82 oed ar 27 Tachwedd. Fe'i ganed yn y Borth yn 1940, gan symud i fyw yn Bow Street yn 1968. Cynhaliwyd ei angladd yn Eglwys Sant Matthew ar ddydd Iau 8 Rhagfyr.

**Gemau Tîm Pêl-droed y Borth**
Dyma'r gemau sy'n wynebu Brain y Borth dros yr wythnosau nesaf. Pob lwc i'r tîm!

Dydd Sadwrn 17 Rhagfyr, 2yp: Borth Utd v Llanilar Res. Cwpan CTAL Rownd 2
Dydd Sadwrn 7 Ionawr, 1.30yp: Llansantffraid v Borth Utd (trefnir bws). Cwpan Her Hŷn CWFA.
Dydd Sadwrn 14 Ionawr, 1.30yp: Llanilar Res v Borth Utd. Cwpan Coffa Len a Julia Newman Rownd 2.
Dydd Sadwrn 21 Ionawr, 2yp: Borth Utd Corris Utd. Cynghrair Cambrian Tyres Aberystwyth.

## Cyfarchion Pen-blwydd

Pen-blwydd Hapus Iawn i Mari Lili Jones (Ynys-las) oedd yn ddwy oed ar ddydd Sul yr 11eg o Ragfyr. Gobeithio iddi gael diwrnod arbennig yng nghwmni Dad, Mam, Rory, Rhys a Seren.



JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
LLWYNDAFYDD, CAPEL BANGOR ABERYSTWYTH

GWASANAETH GARDDIO MYNACH
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

# Clwb Golff y Borth ac Ynys-las

**Adran y Menywod**
Bu cystadlu brwd dros yr wythnosau diwethaf yn y Treialon Nadolig. Dyma ganlyniadau'r cystadlu:

Am Am - 5.11.22
1. Barbara Reece, Jean Harrison, Juliet Jones - 39 pwynt
2. Ruth Jones, Anna Hubbard, Clare Jones Stableford 12.11.22
1. Jen Roberts 34 pwynt
2. Margaret Roberts 34 pwynt
Greensome 26.11.22
1. Lynda Evans a Debbie Jones - 37 pwynt
2. Helen Lewis a Kathy Price - 37 pwynt

**Adran y Dynion**
**Cynghrair Dyfed**
Dros y flwyddyn, bu tîm dynion y Clwb yn cystadlu'n frwd yng Nghynghrair Dyfed. Wedi cyrraedd brig y bedwaredd adran, mae'r tîm wedi sicrhau dyrchafiad i adran 3. Llongyfarchiadau mawr iddyn nhw gyd. Y flwyddyn nesa mi fydd y tîm yn cystadlu yn erbyn Clybiau Ashburnham, Cilgwyn, Garnant a Derllys Court.



**Peter Basnett yn derbyn tlws Adran 4 Cynghrair Dyfed gan Steve Brown, Llywydd y Gynghrair.**

**Trialon Twrci Dolig**
Yn ystod mis Tachwedd bu cryn gystadlu yn y Treialon Twrci a gynhaliwyd bob dydd Sul. Dyma'r canlyniadau:

Medal - 30.11.22
1. Barry Williams. - Nett 66
2. Dave Leemans - Nett 67

Stableford - 6.11.22
1. John Scarett - 41 pwynt
2. Dave Blesovsky - 39 pwynt

Bogey - 13.11.22
1. Gareth Jones - Sgor 3
2. Peter Basnett - Sgor 3

Medal - 20.11.22
1. Rob Galliford - Nett 66
2. Stuart Hopton - Nett 70

Stableford - 27.11.22
1. Christopher Evans - 45 pwynt
2.Peter Basnett - 43 pwynt



**Elusennau Capteiniaid 2022**
Yn ystod y flwyddyn bu'r ddau gyn gapten yn codi arian ar gyfer eu helusennau dewisedig. Diolch i'w hymdrechion casglwyd £1,584.50 tuag at elusen Ymchwil Canser Macmillan a £1,180 i elusen The Care Society. Llawer o ddiolch i bawb wnaeth gyfrannu.

**Golffwyr Newydd**
Cynhaliwyd noson arbennig yn y clwb nos Sadwrn 26 Tachwedd ar gyfer y criw golffwyr newydd a ymunodd yn yr haf. Gyda nawdd gan undeb Golff Cymru, trefnwyd gwersi am ddim ar gyfer dau grŵp o oedolion lleol oedd am ddysgu sut i chwarae. Cynhaliwyd sawl cystadleuaeth ar gyfer y golffwyr newydd hefyd. Diolch yn fawr i Sue Wilson am drefnu pob dim ac i John Morgan am yr hyfforddiant.

# Sarah Myfanwy Hincks (Lal) 21-v-1943 - 29-x-2022

Roedd Lal yn hanu o Sir Benfro, ac yn ferch i Dinah a John James. Roedd yn chwaer i Annie Jane (Anjie), Eurydd, Ieuan ac Alfred Glannedd, a fu farw'n fuan ar ôl ei eni. A hithau'n dysgu siarad, mae'n debyg ei bod yn ei chael yn haws dweud 'Lal' na'i henw llawn a daeth pawb maes o law i'w galw'n 'Lal'. Cafodd addysg yn Ysgol Pontyglasier, ac yn ddiweddarach bu am gyfnod yn dal y bws yn Eglwyswrw i fynd i'r ysgol uwchradd yn Aberteifi.

Un o'i hatgofion hapus ym more oes oedd mynd o amgylch ffermydd y fro i hel calennig a chodi'n gynnar gynnar, cyn iddi oleuo, fore dydd Calan. Roedd codi'n gynnar cyn pawb arall, yn talu iddi meddai. Hyd y diwedd, roedd gan bobl y fro Gymraeg hon le pwysig yn ei chalon. Roedd ei theulu'n bwysig iddi a chofiai'n annwyl am rai o'r cymdogion wrth eu llysenwau.

Bu Lal yn gweithio fel matron mewn cartrefi i'r henoed; Falcondale ger Llanbedr Pont Steffan, ac Avondale yn Aberystwyth, yn eu plith. Aeth wedyn i nyrsio ac roedd y gwaith hwnnw wrth ei bodd. Siom iddi oedd bod anaf i'w chefn wedi rhoi terfyn ar ei gyrfa fel nyrs. Yn Aberystwyth roedd hi'n byw erbyn hynny ac fe gafodd waith wedyn yn Siop y Pethe. Dyna pryd y cwrddodd Lal â Rhisiart, ac yntau'n gwsmer selog yn y siop. Roeddynt yn perthyn i criw o genedlaetholwyr a oedd nid yn unig yn frwd dros y Gymraeg ond dros Geltigrwydd a'r ieithoedd Celtaidd eraill. Fodd bynnag, am resymau iechyd eto, bu'n rhaid i Lal roi'r gorau i weithio yn y siop a phenderfynodd geisio am fynediad i'r Brifysgol. Aeth ymlaen i raddio gydag anrhydedd mewn Cymraeg a Drama, gan wneud cwrs ymarfer dysgu wedyn. Yna fe briododd hi a Rhisiart, a phrynu tŷ yn Nhal-y-bont. Cynhaliwyd y briodas yng Nghapel y Bedyddwyr yn y pentref, ac aethant i Borthmadog ar eu mis mêl. Y peth hynotaf oedd i'r heddlu dorri i mewn i fflat Lal yn Aberystwyth, a oedd yn dal ganddi, noson y briodas fel rhan o'u hymgais i ddatrys dirgelwch llosgi'r tai haf.



Penodwyd Lal yn athrawes Gymraeg yn Ysgol Uwchradd y Drenewydd lle roedd yn ei helfen, ac yn cael hwyl garw yn cymryd rhan mewn dramâu gyda'r plant. Gan ei bod yn haws iddi deithio i'r Drenewydd o Ynys-las nag o Dal-y-bont, symudodd y ddau i Lysllyffant yno. Câi lifft i'r ysgol bob dydd gan Celia Matthews, Maesarfor, y Borth. A hithau'n disgwyl Banon, llithrodd Lal a bu ei choes mewn plaster am gyfnod. Dyna aeaf yr eira mawr. Wedi geni Banon, roedd Lal yn llawn egni a phenderfyniad, ond daeth y briodas i ben, ac ymgymerodd â dysgu Cymraeg i Oedolion ar y Cwrs Carlam yn Aberystwyth. Gwnaeth dipyn o argraff yno ac un o'r dosbarth yn tynnu llun cartŵn o 'Swperlal'. Symudodd Lal i'r Drenewydd ac yno y bu'n byw am gyfnod cyn gorfod rhoi'r gorau i ddysgu, unwaith eto am resymau iechyd. Dychwelodd i Geredigion gan fyw yn y Borth a sawl man arall yn y sir. Tra oedd hi yn Aberystwyth, dechreuodd astudio i fynd i'r weinidogaeth a daeth ei ffydd yn elfen ganolog yn ei bywyd. Roedd hi'n gwirfoddoli i'r Samariaid, yn gweithio gyda'r lloches i fenywod a oedd gan y mudiad Cymorth i Ferched, ac yn warden yn Afallen Deg, Bow Street.

Mae atgofion melys gan Banon o gael ei magu yn sŵn cerddoriaeth Gymraeg yn ei chartref yn gyson a dyna pam y dewisodd ambell un arbennig fel 'Y Cwm' Huw Chiswell ac 'Ysbryd y Nos' Edward H.Dafis i'w chwarae yn ei hangladd. Mae Banon yn nyrs yn Ysbyty Bronglais ac yn ei theyrnged i'w mam yn ei hangladd ar y 23ain o Dachwedd, dywedodd ''Roedd Mam am helpu pawb: fe gyffyrddodd â sawl un ac fe roddodd gysur. Hyd yn oed yn ei marwolaeth mae hi wedi rhoi ei chorff i ymchwil gwyddonol yng Nghaerdydd.'' Ac yna dyfynnodd bennill gan Dic Jones.

Dwy galon, un dyhead
Dwy dafod ond un iaith
Dwy raff yn cydio'n ddolen,
Dau enaid ond un daith

'Mae fy mam yn rhan ohonof i ac rwyf i nawr yn cario ymlaen â'r daith.'

**Felicity Roberts**

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

R.J Edwards a'i Fab
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149

RHYD-Y-PENNAU
COGINIO CARTREF
CHWARAEON BYW . COFFI
01970 867 888

Gwe Cambrian Web
Cwmni lleol o Aberystwyth sydd yn creu gwefannau dwyieithog a gwasanaethau marchnata digidol ar gyfer busnesau bach a mudiadau.
Cysylltwch heddiw!

Gwe Cambrian Web
cambrianweb.com | 01970 623 906 | info@cambrianweb.com | @gwecambrianweb

# LLE MAE NHW NAWR?

Aled, Elen a Ffion o Bow Street yn wreiddiol sy'n cael ein sylw yn y golofn 'Ble maen nhw nawr?' y mis hwn. Dyma lun o'r teulu.



**Aled Evans, 39**
Ymunodd Aled â Chyngor Caerdydd 16 mlynedd yn ôl gan ddechrau yng nghanolfan alwadau gwasanaeth cwsmeriaid y cyngor lle gellir ei glywed o hyd ar y system dalu awtomatig dros y ffôn. Ar ôl bod mewn nifer o rolau yn y tîm ailgylchu ar gyfer Rheoli Gwastraff mae bellach mewn swydd barhaol ac yn gweithio fel Cydlynydd Datblygu Cymunedol, gan gefnogi grwpiau casglu sbwriel cymunedol ar draws y ddinas. Mae Aled a'i wraig Tessa'n byw yn Sblot gyda'u tri phlentyn, Osian, Martha & Bela. Mae Aled wedi parhau â'i angerdd at gerddoriaeth, ac ar hyn o bryd mae'n chwarae drymiau i'r band ynys, sydd wedi'i leoli yng Ngheredigion.

**Elen Evans, 36**
Ar ôl ennill gradd mewn Cerddoriaeth ym Mhrifysgol Sussex yn 2007 treuliodd Elen y 10 mlynedd nesaf yn gweithio fel SENCO, Rheolwr Meithrin a Rheolwr maes chwarae antur yn Brighton a Llundain. Ar ôl blwyddyn a dreuliodd ym Madrid symudodd i Lundain, lle bu'n gweithio fel Rheolwr Maes Chwarae Antur. Yn 2018, cwblhaodd Elen ei gradd meistr mewn Therapi Cerdd a sicrhaodd rôl pennaeth plant, pobl ifanc a theuluoedd, wrth redeg maes chwarae antur a chonsortiwm yn Brixton, Llundain. Erbyn hyn, mae'n rhedeg ei chwmni diddordeb cymunedol ei hun, sy'n dosbarthu therapi cerdd am ddim i bobl o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd difreintiedig yn Llundain.

**Ffion Evans, 30**
Ar ôl graddio o'r brifysgol yn 2014, aeth Ffion yn syth i'r byd celfyddydau, gan weithio i wahanol adrannau cerddoriaeth, elusennau celfyddydol a cherddorfeydd proffesiynol drwy gydol y ddegawd diwethaf. Dechreuodd ymddiddori mewn rheoli cyllid ar ôl treulio blynyddoedd yn gweithio o fewn sefydliadau bach, lle bu galw arni i wneud ymgymryd â gwahanol ddyletswyddau. Mae bellach yn rhannu ei hwythnos waith rhwng gweithio'n rhan-amser fel swyddog cyllid i'r undeb athrawon UCAC a gweithio iddi hi ei hun, gan gynnig cefnogaeth o ran cyllid i sefydliadau ledled y DU. Mae hi wrth ei bodd gyda'r hyblygrwydd a'r amrywiaeth mae hunangyflogaeth wedi cynnig iddi ar ôl iddi symud i Dyddewi, Sir Benfro y llynedd. Mae Ffion yn treulio ei hamser hamdden yn cerdded ei chi, Linda o amgylch arfordir prydferth Sir Benfro, yn ogystal â nofio yn y môr. Mae Ffion yn feichiog ac yn disgwyl ei phlentyn cyntaf ym mis Mawrth.




## Clarach

**Seiclwr ifanc**
Pob lwc i Griff Lewis fydd yn symud at dîm Ribble rechrg ddechrau'r flwyddyn. Dymuniadau gorau i ti!




## Pêl-droed Penrhyn-coch

**Tim 1af**
19 Tachwedd – Cegidfa (Guilsfield) 4 Penrhyn-coch1
26 Tachwedd – Penrhyn-coch 2 Llanidloes 0

**Eilyddion**
18 Tachwedd – Eilyddion Penrhyn-coch 7 Eilyddion Caersws 2
27 Tachwedd – Eilyddion Bow Street 1
Eilyddion Penrhyn-coch 0



Lluniau: Beverley Hemmings

## Penrhyn-coch

**Oedfaon Horeb**

*Rhagfyr*

18 2.30 Oedfa Nadolig Peter Thomas
25 9.00 Oedfa bore Nadolig Judith Morris

*Ionawr*

1 2.30 Oedfa gymun Peter Thomas
8 10.30 Peter Thomas
15 10.30 Judith Morris Bethel yn ymuno
22 10.00 Wyn Morris ym Methel
29 10.30 Judith Morris

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â David Clare a'r teulu, Maesyrefail, ar farwolaeth tad David – Cyd Clare yn y Borth; hefyd â theuluoedd y ddiweddar Thelma Morgan a John Harris, y ddau o Ger-y-llan. Yn frodor o Iwerddon daeth John Harris draw i weithio ar waith Dŵr Nant-y-moch yn y 1960au; by'n byw ar y Sgwâr cyn symud i Ger-y-llan. Daeth teulu a chyfeillion o Iwerddon draw i'r angladd.

**Ennill hampr**

Llongyfarchiadau i Ann James, Pen-banc, ar ennill hampr Cracadolig ar Heno ganol y mis

**Byd Addysg**



Gwelwyd David Belsey, ar y newyddion yn ddiweddar – mae yn Ysgrifennydd Cyffredinol Cynorthwyol Undeb Athrawon yr Alban.

**Merched y Wawr**

Cafwyd noson agoriadol lwyddiannus ar nos Iau Medi'r wythfed. Noson o gymdeithasu a mwynhau caws a gwin yng ngofal Alwen a Wendy. Braf oedd croesawu saith o aelodau newydd. Gobeithio bydd mwy yn ymuno â ni yn ystod y flwyddyn.

Mis Hydref. Roedd yn bleser croesawu Phillip Thomas (Phil y fet). Noson ddiddorol gyda Phil yn trafod y gwahanol afiechydon maent fel milfeddygon wedi delio â hwy dros ugain mlynedd diwethaf. Agoriad llygaid yn wir.

Croesawyd Hazel Thomas, swyddog rhanbarthol MYW, atom ym mis Tachwedd.






Miriam a Felicity oedd yn gyfrifol am drefniadau'r noson. Cafodd dwy aelod lwcus o'r gangen Liz a Delyth drawsnewidiad gan Hazel. Yn ogystal, bu Hazel yn sôn am ei chyfnod yn rhedeg busnes trin gwallt yn Llambed a'i chyfnod fel cogyddes.

Llongyfarchiadau i Glenys Morgan am ddod yn gydradd 3ydd yn y gystadleuaeth o greu Seren mewn unrhyw gyfrwng yn y Sioe Aeaf.

**Y diweddar Glyn Collins, Penrhyn-coch.**

Dymuna Norma, Richard a Louise ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn dilyn marwolaeth Glyn. Diolch diffuant iawn hefyd am y cyfraniadau er cof amdano a dderbyniwyd tuag at Uned CemotherapI Bron-glais. Derbyniwyd cyfanswm o £805.

**Priodas**

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Selwyn ac Eleanor, Kairali, a briodwyd yn Gretna Green ddechrau Rhagfyr.

**Horeb**

Mae Rhaglenni Cymanfa Ganua 2023 wedi cyrraedd ac ar gael oddi wrth ysgrifennydd Horeb – Ceris Gruffudd am £2.00.

## Cymdeithas y Penrhyn

Plac yn Aberteifi, ei ardal enedigol, oedd man cychwyn William Howells yng nghyfarfod mis Tachwedd wrth iddo adrodd hanes y bardd Telynog, a anwyd yn y dref yn 1839 (1840 yn ôl nifer o ffynonellau). Thomas Evans oedd ei enw bedydd ac yn un ar ddeg oed aeth i weithio ar y môr. Dihangodd o'r fan honno i Aberdâr a mynd i weithio yn y pyllau glo.

Dechreuodd farddoni gan ennill nifer o wobrau eisteddfodol. Bu farw o'r ddarfodedigaeth yn 1865 ac yntau ond yng nghanol ei ugeiniau. Roedd wedi cynhyrchu llawer iawn o farddoniaeth yn ystod ei fywyd byr ac roedd yn uchel ei statws ymhlith beirdd y Cymoedd. Cyhoeddwyd cyfrol o'i waith, *Barddoniaeth Telynog,* yn 1866, a chafwyd pum argraffiad ohoni sy'n dangos poblogrwydd ei waith.

Diolch i William am fod mor barod i gamu i'r bwlch ar y funud olaf gan nad oedd Geraint Lewis, yr awdur o Aberaeron, yn gallu bod gyda ni oherwydd salwch.



Cyhoeddwyd yr wythnos ddiwethaf fod Gwobr Hywel Dda wedi ei chyflwyno i Dr Daniel Huws, Tyddyn Seilo am ei gyfraniad oes i faes llawysgrifau Cymreig. Llongyfarchiadau iddo!

Penodwyd Dr Daniel Huws yn archifydd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn 1961. Yn 1967, trodd ei olygon at lawysgrifau canoloesol ac mae ei gyhoeddiadau niferus wedi gweddnewid ein dealltwriaeth o'n treftadaeth lenyddol. Erbyn ei ymddeoliad yn 1992 roedd wedi hen ennill ei blwyf fel y pennaf awdurdod yn ei faes, ac yn 1996 dechreuodd weithio ar ei magnum opus, A Repertory of Welsh Manuscripts and Scribes c.800–c.1800. Cyhoeddwyd tair cyfrol hirddisgwyliedig y Repertory gan y Ganolfan Uwchefrydiau a'r Llyfrgell Genedlaethol yn 2022.

Cynhaliwyd cynhadledd 'Llawysgrifau Cymru' ym mis Mehefin eleni i nodi'r achlysur yng nghwmni Prif Weinidog Cymru, y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS.



## Trefeurig

**Dwy sengl newydd**
Bu teulu Maes Meurig yn brysur yn gerddorol yn ddiweddar yn cynhyrchu deunydd newydd

Yn dilyn cyhoeddi 'Porthmyn Tregaron' ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol yn yr haf mae sengl newydd allan ar y label Pyst gan Linda. Recordiwyd 'Hen garolau' – y geiriau a'r gerddoriaeth gan Linda – mewn perfformiad byw yn yr Ysgwrn, Trawsfynydd Nadolig y llynedd. Mae'r geiriau yn ymateb i luniau yr erlid a'r dioddef sydd o gwmpas y byd a'r neges yw y dylem ystyried gwneud rhywbeth i gynorthwyo. Bu Linda yn perfformio Hen garolau - gyda Côr Seiriol sydd yn canu yn gefndir - yn eu cyngerdd blynyddol yn Eglwys Clynnog ar Ragfyr 4ydd. Mae ar gael ar Spotify a phlatfformau eraill.



Mae Linda yn parhau i gyflwyno ei rhaglen ben bore Sul ar Radio Cymru – rhwng 5.30 a 7.00 lle chwaraeir unawdwyr a phartïon diddorol o'r 1960au a wedyn gan roi manylion diddorol amdanynt. Mae modd gwrando ar Sounds os nad ydych yn dal y rhaglen yn fyw

Mae Rhys Gwynfor hefyd wedi cyhoeddi sengl newydd - Adar y nos. Yn wahanol i 'Bydd wych' a 'Canolfan arddio', mae Lisa Angharad yn gwneud y canu cefndirol. Mae ar gael ar 'You Tube, Spotify, I-tunes, Google Music a gobeithio ar sengl cyn hir. Mae Rhys a Lisa yn dal i gyflwyno y rhaglen deledu 'Pnawn da' ar brynhawniau Gwener.

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad â Maddy a Hywel Lewis, Fferm Cwmerfyn, ar farwolaeth David Tringham, brawd Maddy a oedd yn byw yn Llundain ac â theulu y ddiweddar Barbara Couling, Ardwyn, fu farw ddiwedd mis Tachwedd.



**Prynhawn braf am daith hamddenol o Ben-bont Rhydybeddau heibio Cwm Sebon, Cwmerfyn a Banc y Darren.**

# Cynaeafu yng Nghatalonia

Cyrhaeddom ein fferm olewydd ddiwedd mis Medi yn reit bryderus.

Ar ddau gyfrif: yn gyntaf, roeddwn i (Helen) wedi torri fy mhen-glin ychydig wythnosau ynghynt ac wedi bod mewn cast plaster i fyny at fy nghlun hyd at ychydig ddyddiau cyn i ni fynd allan i Gatalonia. Roedd y llawfeddyg wedi cytuno i dynnu'r cast i ffwrdd ar ôl 4 wythnos a'm rhoi mewn *"brace"* am y pythefnos arall, er mwyn i mi allu teithio. Ond pa mor ddefnyddiol allwn i fod yn ystod y cynhaeaf?



Hynny yw, os bydden ni'n cael cynhaeaf o gwbl eleni? A dyna oedd y pryder arall. Ar ôl y sychder hir a'r tymheredd eithafol, doedden ni ddim yn siŵr beth i'w ddisgwyl. Roedd yn rhaid i ni adael Ewrop ar y 24ain o Fehefin, felly heb weld ein fferm ers 90 diwrnod.



Yn sicr, roedd blagur ar y coed ym mis Ebrill, ond roedden ni'n gwybod ein bod wedi cael nesa peth i ddim glaw, a hyd yn oed mor gynnar â mis Mai a mis Mehefin roedden ni wedi profi tymereddau yn yr 20au uchel a'r 30au isel: tymheredd na fyddem fel arfer yn eu disgwyl tan fis Gorffennaf neu Awst.

Cofnodwyd 48 o nosweithiau "trofannol" yn ein hardal eleni. Mae'r rhain yn nosweithiau pam mae'r tymheredd ddim yn disgyn o dan 25 gradd Celsius. Yr oedd deugain ohonynt yn olynol.

Fel mae'n digwydd, roedden ni'n fwy ffodus na'r mwyafrif. Cawsom ddigon o gnwd i wneud cynhaeaf ac rydym wedi dychwelyd i Gymru gyda 145 litr o'n holew gwerthfawr. Nid cymaint â'r llynedd, ond yn ddiolchgar iawn er hynny, gan fod llawer o'r coed olewydd cyfagos yn gwbl wag; tra roedd gan eraill gyn lleied fel nad oedd yn werth chweil eu melino. Roedd yn deimlad anghysurus iawn mynd o gwmpas ein har- dal leol a gweld coed a fyddai fel arfer yn diferu gydag olewydd, eleni yn gwbl ddiffrwyth.

O ran y goes: roedd yn llawer gwell na'r disgwyl pan ddaeth y *"brace"* i ffwrdd, a llwyddais i fynd o gwmpas a gwneud cyfraniad defnyddiol at y cynaeafu!

Wedi gweld ein bod am gael cynhaeaf wedi'r cwbl, ein her nesaf oedd y melino. Gan ein bod yn cynhaeafu yn gynnar yn y tymor, rydyn yn y felin cyn gynted ag y bydd yn agor am olewydd. (Maen nhw'n trin cnydau eraill ar adegau eraill). Rydym wedi bod yn mynychu'r un felin ers blynyddoedd, ond pan wnaethom holi ynglŷn â'r dyddiadau agor, fe'n hysbyswyd, oherwydd y prinder, mai dim ond 2 ddiwrnod yr wythnos yr oeddent yn mynd i fod ar agor: dydd Llun a dydd Gwener. Ac ar ben hynny, roedd y costau melino bron wedi dyblu! Mae cael olew olewydd dihalog yn gofyn inni gael yr olewydd i'r felin cyn gynted â phosibl, ac i sicrhau ansawdd ein holew rydyn ni'n ei wasgu bob dydd. Problem arall i ddatrus...

Yn ffodus, roedden ni wedi cael sgwrs gyda pherchennog melin mewn digwyddiad cymdeithasol yn gynharach yn y flwyddyn ac wedi cadw ei fanylion gan fod yr hyn a glywsom wedi creu argraff arnom. Melin fechan yw Moli de la Creu (Melin y Groes) sydd wedi bod yn nheulu Porta i Ferre ers 1884. Maent wedi llwyddo i gyfuno traddodiad â moder- niaeth, gan ddefnyddio gwasgu oer a sicrhau eu bod yn cael olew olewydd o'r ansawdd uchaf iddynt eu hunain a ffermwyr olewydd lleol. Roedd yn ychydig ymhellach i ni deithio yno (taith 45 munud bob ffordd yn hytrach nag 20), ond yn werth y siwrne ychwanegol.

Mae ein fferm yn parhau i'n swyno a'n syfrdanu. Yn rhannol oherwydd ein bod yn cael ein hatgoffa'n aml o ddoethineb a gwybodaeth gynhenid ein rhagflaenwyr a blannodd y coed gymaint o flynyddoedd yn ôl. Mae pob un teras yn gymysgedd o fathau o goed olewydd: Arbequina, Sevillenca a Morrut yn bennaf. Y cyfuniad hwn sy'n rhoi digonedd o flas i'n holew, o lyfnder yr Arbequina i siarprwydd y mathau eraill, sy'n rhoi'r goglais bach hwnnw yng nghefn eich gwddf. A diolch i'r broses felino hirach, arafach ym Moli de la Creu, teimlwn fod hyn yn cael ei danlinellu hyd yn oed ymhellach eleni.

Dechreuom ar y daith hir am adref, gyda'r olew yn y car, ar ddydd Mercher, y 9fed o Dachwedd. Aeth ein taith â ni ar draws Aragon, lle mae effeithiau'r sychder yn dal yn glir: argae enfawr gyda dim ond gwely'r afon wreiddiol yn cynnwys unrhyw ddŵr. Treulion ni'r noson gyntaf yn Pamplona, yna 2 noson ar y ffordd yn Ffrainc, cyn croesi ar yr Eurotunnel ar y nos Sadwrn.

Mae'n caniau olew bellach wedi setlo'n ddiogel yn ein hystafell botelu, ac rydym ar fin dechrau'r broses botelu, a chymryd archebion.

Helen a Selwyn, Tŷ Bach Twt sydd nôl yng Nghapel Bangor dros y gaeaf. Gellwch ddilyn ar Facebook ac Instagram @TyBachTwtCatalonia

# Plygain Penrhyn-coch 1866

Diolch i William Howells am ddod o hyd i'r ysgrif isod mewn hen bapur newydd wythnosol, *Seren Cymru*, a gyhoeddwyd ar 12 Ionawr yn y flwyddyn 1866. Mae William Howells yn un o gymwynaswyr mawr yr ardal hon, ac yn hanesydd tan gamp.

Mae'r erthygl yn sôn am wasanaeth plygain a gafodd ei gynnal ym Mhenrhyn-coch ym mis Rhagfyr 1865 (ar fore'r Nadolig efallai?) neu o bosib ddechrau mis Ionawr 1866. Rydym yn hen gyfarwydd â'r plygain sy'n cael ei gynnal yn Eglwys Sant Ioan ar drydedd nos Iau mis Rhagfyr ers dros chwarter canrif, ond oeddech chi'n gwybod bod gwasanaeth plygain wedi'i gynnal yma dros gant a hanner o flynyddoedd yn ôl?

Rydym yn arfer meddwl am sir Drefaldwyn fel ardal y plygeiniau. Y gwir amdani yw fod y plygain yn cael ei gynnal ym mhob llan a phlwyf drwy Gymru ar un adeg, ond mai yn sir Drefaldwyn y parodd hiraf, ac y parodd yn ddi-dor dros y cenedlaethau.

Mae llawer o bwyntiau difyr yn dod i'r amlwg wrth ddarllen y darn hwn yn *Seren Cymru*. Yn un peth, mae'r awdur yn reit blaen ei dafod! Yn y paragraff cyntaf mae'n canmol pobol am roi sylw i'w teuluoedd dros y Nadolig, rhywbeth yn debyg i'r pennill hwn allan o un o'r carolau sy'n cael ei chanu'r dyddiau hyn:

Daeth Nadolig fel arferol,
Daeth â ffrindiau eto 'nghyd,
Daeth â rhoddion a theganau
O eithafoedd pella'r byd;
Daeth ag ambell un i'r aelwyd
Fu yn byw mewn estron wlad,
Daeth ag ambell i afradlon
Eto'n ôl i dŷ ei dad.

Ond mae'r awdur yn mynd gam ymhellach a dweud bod gormod o bartïon a rhialtwch a mynd dros ben llestri. Does dim byd yn newydd dan yr haul!



Am chwech o'r gloch y bore yr oedd hen wasanaeth plygain y Penrhyn yn cael ei gynnal. Dyna oedd yr arfer ar y pryd, wrth gwrs, a pheth cymharol ddiweddar yw cynnal plygain gyda'r nos fel y gwnawn ni heddiw.

Mae'r lleoliad yn ddifyr hefyd. Roedd criw mawr, yn llawn 'sŵn a dwndwr', yn mynd i'r 'ysgoldy cenedlaethol' i gynnal y plygain. Nid oedd eglwys Penrhyn-coch wedi cael ei chodi ar y pryd, ddim tan 1880–1882, ac mae'n rhaid bod y plygeiniau'n cael eu cynnal bob blwyddyn yn yr Ysgoldy, neu adeilad Ysgol yr Eglwys, a godwyd yn 1862–1863. Defnyddid yr Ysgoldy i gynnal gwasanaethau eglwysig tan 1881, pan gysegrwyd yr eglwys. Teulu Pryce, Plas Gogerddan, oedd y noddwyr a dalodd am godi'r ddau adeilad.

Mae croeso i bawb yn y plygain, gan gynnwys y rhai sy'n methu codi erbyn deg ar fore Sul arferol a byth yn tywyllu'r adeilad drwy'r flwyddyn – ac mae'r colofnydd yn rhoi cic go galed i'r rheini yn ei lith. Mae elfen arall o feirniadaeth yn ei ysgrif hefyd, sef y defnydd o'r ieithoedd Groeg a Lladin yn rhai o'r addurniadau. Mae'n amlwg fod yr ysgoldy yn hardd iawn ar adeg y blygain, ac adnodau o bosib wedi eu brodio'n gain yn addurno'r adeilad, mewn ieithoedd nad oedd yr awdur yn eu deall. Roedd hynny, i rai, yn arwydd fod y Catholigion yn cael lle rhy amlwg, ond mae'r awdur ei hun yn anghytuno â hynny rwy'n synhwyro.

Yn yr hen amser roedd yn arferiad cael pregeth yn ystod y gwasanaeth, ac mewn rhai ardaloedd roedd cymun yn cael ei weinyddu. Nid yw'r erthygl hon yn sôn am gymun, ond roedd yno bregeth: y Parchedig W. Powell yn pregethu o Eseia 9:6, 'Canys bachgen a aned i ni, mab a roed i ni, a bydd yr awdurdod ar ei ysgwydd ef.'

Druan o gôr 'Pantgoch'! Doedden nhw ddim wedi plesio'r awdur o gwbl wrth ganu eu dwy garol 'yn hynod anghelfydd'. Rwy'n cymryd mai gwall sydd yma am gôr Bont-goch. Roedd ganddyn nhw eglwys cyn i Benrhyn-coch gael eu hadeilad nhw. Codwyd eglwys Elerch, Bont-goch, rhwng 1865 ac 1868. Roedd côr yr eglwys yno wedi dod i Benrhyn-coch i gymryd rhan yn y gwasanaeth plygain, ond mae'n amlwg na chawson nhw fawr o groeso na gwerthfawrogiad – gan golofnydd *Seren Cymru* o leiaf.

Diolch eto i William Howells am ddod â'r erthygl hon i'n sylw, ac am roi cip i ni ar fywyd Penrhyn-coch ganrif a hanner yn ôl.

**Rhiannon Ifans**

## Seren Cymru 12.1.1866

**Y Nadolig**

Wel, aeth un Nadolig heibio eto, a llawer un wedi ei dreulio yn llawen, mewn ymweled a theulu a pherthynasau, tra mae llawer wedi ei dreulio mewn pechu yn erbyn Creawdwr a Chynnaliwr pob peth.

Am chwech yn y boreu yr oedd yr ardal yn fyw, gan swn a dwndwr y rhai hyny a gyfeirient eu camrau tua'r ysgoldy cenedlaethol i'r **plygain.**

O berthynas i'r plygain, gallwn ddweud mai plentyn newydd eni ydyw yn yr ardal hon er hynny, dangosa fod ynddo fywyd, ac yn argoeli yn bresenol o ddod yn un mawr mewn maintioli, ac yn nerthol mewn dylanwad. Drwy lawer gorchest cyrhaeddasom y lle mewn pryd. Ac er ein syndod, gwelem yno lawer i un ag sydd yn methu yn eu byw a chadw eu cydgynulliad ar foreu Sabboth. O drueni onite?

Wedi bod mewn synfyfyrdod am ychydig am y mawrddrwg hwn, edrychasom o gwmpas, a gwelem y muriau a'r lle sanctaidd, a'r sancteiddiolaf, wedi eu gwisgo mewn modd hardd; ac yr oedd yn ysgrifenedig uwchben, mewn llythrenau Cymraeg, Saesonaeg, Groeg, a Lladin; ac er ein bod yn gallu deall ystyr rhai ohonynt, yn ein byw y gwnelem ddim a'r rhanau ereill ac yn i ein dyryswch, gofynasom i gyfaill a ddygwyddasai fod gerllaw, a oedd ef yn deall rhywbeth o ystyr y brawddegau hyny? O, ydwyf siwr, meddai

Groeg a Lladin ydynt—yr oll bron yn golygu yr un peth. Dyma frawddeg, meddai, wedi ei hysgrifenu yn y Groeg, yr hyn o'i gyfieithu i'r Gymraeg ydyw, "Olion Pabyddiaeth." Er nas gallwn ei wrthwynebu trwy fy ngwybodaeth o'r iaith, eto yr oeddwn yn ei ammheu ar dir rheswm.

Wedi myned trwy y ffurfiau arferedig, vn ol y ddefod, cawsom bregeth gan y Parch. W. Powell ar y geiriau hyny, Canys bachgen a aned i ni," &c. Hefyd, yn ystod y cyfarfod, **canwyd dwy garol gan gôr Pantgoch** yn hynod o anghelfydd.

Am unarddeg o'r gloch yr oedd gwasanaeth Saesonaeg yn cael ei gynnal yn yr un lle, pryd y pregethwyd gan y Parch. Mr. Pugh, Llanbadarnfawr; a thua'r un adeg, yr oedd y Parch. D. Jenkins, Jezreel, yn pregethu i'r Gymdeithas Benefit, yn nghapel y Bedyddwyr, oddiar y geiriau, Bwrw dy fara ar wyneb y dyfroedd, canys ti a'i cei ar ol llawer o ddyddiau."

# Capel Bangor /Pen-llwyn

**Ionawr**
1 10.00 Oedfa yr ofalaeth yn rhithiol
8 2.00 Dr John Tudno Williams
15 2.00 Dr Watcyn James
22 10.00 Oedfa'r Ofalaeth yn Rehoboth
29 2.00 Parchg Judith Morris

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlir â Heulwen Lewis, Deiniol ar farwolaeth ei chefnder, Bryan Morgan a oedd yn byw yng Nghasnewydd. Mab hynaf y diweddar Alun Morgan, Siop Pengraig oedd Bryan a bu'n gweithio yn y siop gyda'i dad. Byddai Bryan wrth ei fodd yn mynd i fferm Y Fron lle roedd ei ffrind, Gerwyn Davies, yn byw. Er iddo adael yr ardal ers blynyddoedd maith roedd yn dal i gofio'n annwyl am ei amser ym Mhen-llwyn ac yn dal i ymddiddori yn yr ardal.

**Cyfarchion**
Dymuniadau gorau'r Nadolig i holl ddarllenwyr y Tincer a phawb arall yng nghyffiniau Pen-llwyn, bydded i wir ystyr y Nadolig ein cyrraedd, a'n galluogi i ddathlu genedigaeth Crist unwaith yn rhagor. Dyma englyn o waith y diweddar R. J. Rowlands o'r Bala a ymddangosodd ar gerdyn Nadolig:

Wrth fwrdd y wledd eisteddwn - o ganol
Digonedd y codwn;
Heddiw nac anwybyddwn
Waedd y lleill am weddill hwn.

Da ynte ac yn rhoi proc go dda i gydwybod pob un ohonom

**Pen blwydd hapus**
Llongyfarchiadau i Mrs. Linda Morris, Glennydd, ar ddathlu ei phen blwydd yn 90 oed ar Ragfyr 27ain.


Cariad mawr i fam, mam-gu a hen fam-gu annwyl iawn.

Oddi wrth Eilir, Gaenor, Phillip, Angharad, Heledd, Huw, Sam a Siwan fach.

**Cinio Sioe Capel Bangor a'r Cylch**
Cynhelir Cinio'r Sioe ar Nos Sadwrn, Ionawr 14 am 7.00 yr hwyr am 7.30. Fe fydd y ginio yng ngwesty yr Hafod, Pontarfynach a gobeithio y bydd yna rif niferus i ddathlu yr hanner ganfed Sioe. Os oes unrhyw un am ymuno â ni cysylltwch gyda Rhydian Davies, Andrea Jones, Bethan Bebb neu unrhyw aelod o'r pwyllgor. Croeso cynnes i bawb.

**Cylch Meithrin Pen-llwyn**
Rydym wedi mwynhau'r hanner tymor yma eto yng nghanol y dail a byd natur wrth ychwanegu at ein gwesty trychfilod. Cyrhaeddodd mis Rhagfyr, a chyrhaeddodd y corrach cellweirus sydd wedi creu strach bob bore. Rydym wedi mwynhau'r wythnosau diwethaf yn paratoi at y Nadolig. Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd!









## Merched y Wawr – Cangen Melindwr

'Cefnogwch fusnesau lleol' yw'r gri a glywn yn aml y diwrnodau hyn a dyna wnaeth y gangen wrth fynd i Dafarn y Maes am ei chinio Nadolig lle mwynhawyd pryd blasus o fwyd. Wrth groesawu pawb estynnodd Lynne Davies, ein llywydd, groeso arbennig i'n gwraig wadd, sef Mrs Mair Griffiths, Comins-coch. Bu Mrs Griffiths yn athrawes yn Ysgol Pen-llwyn ddiwedd y chwedegau a dychwelodd i'r ysgol yn ystod yr wythdegau. Cawsom orig ddifyr yn ei chwmni yn hel atgofion am ei phrofiadau yn dysgu plant Pen-llwyn ac yn mwynhau cwmni aelodau o staff yr ysgol. Cawsom hefyd gyfle i glywed rhai o'r penillion a'r caneuon a gyfansoddwyd ganddi ar gyfer y plant. Mae nifer o blant a rhieni'r ardal yn cofio'n annwyl iawn am Mrs Griffiths.


Yn ystod y cyfarfod tynnwyd sylw'r aelodau at y gwaith clodwiw a wnaed gan ddwy o aelodau'r gangen, sef Eirlys Davies ac Eirwen McAnulty. Bu Eirlys ac Eirwen yn brysur iawn yn trawsnewid y sgarff a grewyd ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron. O ganlyniad i'w creadigrwydd a'u gwaith caled, llwyddasant i lunio pedair blanced, wyth sgarff, pum 'snood' a chwe chap. Diolchodd Lynne yn gynnes iddynt ar ran aelodau'r gangen, gan ddweud y bydd y gwaith gorffenedig yn cael ei anfon i Wcràin.

Cyn mynd tua thref diolchodd Nia Davies i dafarn Y Maes am y bwyd blasus, i Mrs Griffiths am fod yn wraig wadd ac i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y prynhawn.





# Adolygiadau




**GAIR O GALONDID;** golygwyd gan Caryl Parry Jones. Gwasg y Bwthyn er budd meddwl.org. 136t. £9.00

Beth allai fod yn well i'w rhoi yn anrheg Nadolig na geiriau – cylymau o seiniau sy'n hedfan drwy'r awyr neu'n gorwedd ar bapur mewn llinellau a chylchoedd, ac sy'n meddu ar rym dibendraw i newid meddyliau a theimladau. Dyna sydd yn y gyfrol fach dwt, hylaw hon, a'u bwriad, yn ôl y rhagair, yw "codi calon, denu gwên, tawelu'r meddwl, rhoi hyder, annog chwerthin ac ystyried, a chynnig eiliad o ddihangfa."

Mae ynddi waith dros ddeg a thrigain o awduron yn feirdd ac athronwyr, o Gymru a thu hwnt, yn gyfuniad o'r cyfarwydd - yn cynnwys, yn annisgwyl efallai, geiriau rhai emynau cyfarwydd iawn iawn, e.e. *Calon Lân*, gan David James (Gwyrosydd), a'r anghyfarwydd a thrawiadol (i'r darllenydd yma beth bynnag!), e.e *Merched yn Toilets Clwb Ifor*, gan Llio Elain Maddocks.

O ran mesur ac arddull mae yma ddarnau rhyddiaith byr a byr iawn, cerddi penrydd, englynion, limrigau a phenillion, cywyddau, sonedau, o waith enwau megis Huw Chiswell, Dic Jones, Tydfor, Jimi Hendrix, Marilyn Monroe, Mererid Hopwood, Mark Twain, Yws Gwynedd, Waldo Williams, ac ymlaen ac ymlaen, a'r cyfan wedi eu rhannu'n naw adran dan y teitlau Dedwyddwch, Cyfeillgarwch, Plant a Theulu, Cariad, Y Tymhorau, Hunan-werth a Phositifrwydd, Fy Nghymanfa Bersonol, Deg Gorchymyn CPJ, a Gigls. Oes, mae yma rywbeth i bawb.

Er mai geiriau yw prif sylwedd y gyfrol fyddai'r gwerthfawrogiad yma ddim yn gyflawn heb gyfeirio at ffotograffau crefftus Kristina Banholzer, Iestyn Hughes a Richard Jones, sy'n tywys y llygad ac yn cyfoethogi'r darllen. Mae'r crynhoad hudolus a chyfareddol o flodau gwylltion sy'n wynebu'r darllenydd wrth agor y clawr y naill ben neu'r llall i'r llyfr yn wledd yn ei hunan.

Yr unig feirniadaeth sydd gen i ar y gyfrol yw nad oes ynddi fynegai na rhestr o'r cynnwys, felly nodwch ar fyrder, da chi, rif dalen unrhywbeth sy'n dal eich llygad, neu fe fydd rhaid i chi droi'r dail i gyd i ddod o hyd iddo yr eilwaith, a hynny'n sicr o'ch rhoi mewn tymer wahanol iawn i fwriad y llyfr!!

**Llinos Dafis**


---

**BRETHYN GWLAD** gan Eirwyn George. Cyhoeddwyd gan yr awdur. 89t. £7.50

Cyfrol o gerddi diweddar y Prifardd Eirwyn George yn dilyn Cân yr Oerwynt 2009. Casgliad o waith bardd gwlad sydd ganddo yn bennaf y tro hwn. Cerddi yn ymwneud â phobol a digwyddiadau ei filltir sgwâr. Cerddi syml, uniongyrchol eu mynegiant, y gellir eu deall a'u gwerthfawrogi ar un darlleniad. Mae yma atodiad o ddarnau o ryddiaith hefyd. Erthyglau ac ysgrifau sydd naill ai yn trafod barddoniaeth neu yn tywys y darllenydd i grwydro rhai o ardaloedd cefn gwlad yr awdur yn ei gynefin. Cyfarfod â rhai cymeriadau unigryw! Barddoniaeth a rhyddiaith wedi eu cyfuno a'u cyd-blethu.

Brodor o odre'r Preselau yw Eirwyn George. Bardd y Goron yn y Genedlaethol ddwywaith ac awdur nifer o gyfrolau barddoniaeth a rhyddiaith. Mae'n briod â Maureen ac yn byw ym mhentre Maenclochog.

Pris y llyfr yw £7.50 yn y siopau, neu £10 drwy'r post oddi wrth Alun Ifans, Erw Grug, Maenclochog, Clunderwen. SA66 7LB Bydd elw'r gwerthiant yn mynd i gronfa Cymdeithas Waldo. Sieciau yn daladwy i 'Cymdeithas Waldo'.




Trydan
WILL DAVEY
Electrical & AV
- Gosodiad Trydanol Ardystiedig
- CCTV a AV
- Arolygu & Phrofi
- Pŵeru cerbydau trydan
- Gosod PV solar
GWYNFA, PISGAH, ABERYSTWYTH, SY23 4NE
APPROVED CONTRACTOR
07581 173 684 info@willdavey.co.uk @trydanwilldavey

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Laurence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, cardiau cyfarch siop drwyddiedig
01970 828312

COPI CYWIR
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture
Canolfan Morlan, Morfa Mawr
Aberystwyth Ceredigion
SY23 2HH
www.morlan.cymru

Tybed a oes didordeb gennych mewn mynd i ganu carolau i'r rhai ym Mhenrhyn-coch sy'n gaeth i'w cartrefi. Os oes diddordeb gennych, a allwch chi roi gwybod i mi, cyn gynted â bod modd, y dyddiadau y gallwch ganu rhwng 17 Rhagfyr a 31 Rhagfyr (heblaw am brynhawn y 18fed), naill ai yn y prynhawn am 2 neu gyda'r nos am 7. Yn y prynhawn y byddai orau mynd i ganu mae'n debyg o gofio mai at yr henoed y byddwn yn mynd, ond os na chawn digon o gantorion ynghyd i fynd yn y prynhawn yna'r nos amdani. Rhyw ddwyawr a hanner y buom wrthi adeg y Pasg. Os cawn digon o gantorion i ffurfio dau barti byddem yn gallu rhannu'r gwaith rhwng y ddau barti.

Os hoffech enwebu rhywun i dderbyn ymweliad gallwch roi gwybod i mi.

Cofion
Eleri James
07812 855719



# Enwau lleoedd

## Angharad Fychan

Mewn siarter wedi ei dyddio 1202 sy'n cadarnhau rhodd o diroedd gan Rhys Ieuanc ap Gruffudd i fynachlog Ystrad Fflur, cofnodir yr enw *Sauan y ky* (Saf(a)n y Ci), y gellir dyfalu o'r cyd-destun ei fod ar lan ddeheuol afon Ystwyth, heb fod ymhell o'i haber i Fae Ceredigion.

Tua diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg, nodwyd enw lled debyg, *Bwlch Safn y Ci*, gan Siôn Dafydd Rhys yn llawysgrif Peniarth 118 mewn chwedl onomastig sydd wedi ei lleoli, unwaith eto, yng nghyffiniau ceg afon Ystwyth i Fae Ceredigion.

Chwedl yw hon sy'n adrodd hanes cawr o'r enw Maelor oedd yn byw yng Nghastell Maelor ar fryn Pen Dinas (neu Ben Dinas Maelor). Fe'i daliwyd gan ei elynion yn ardal Cyfeiliog, sir Drefaldwyn, ond cyn cael ei ladd, cafodd ganiatâd i seinio'i gorn hela deirgwaith. Chwythodd â'r fath egni ar y caniad cyntaf nes i'w wallt a'i farf ddisgyn allan; collodd ewinedd ei ddwylo a'i draed ar yr ail; ac ar y trydydd, chwalodd y corn yn deilchion. Pan glywodd ei fab, Cornipyn, alwad y corn, rhuthrodd ar ei farch, gyda'i gi ar dennyn, i geisio cynorthwyo'i dad. Ond carlamodd ar y fath gyflymder fel na fedrai'r ci ddal i fyny ag ef, a rhwygwyd ei ben oddi ar ei gorff, gan adael dim ond pen a safn ('ceg') yn y tennyn. Ac wrth gwrs, fe anfarwolwyd y fan honno fyth wedyn â'r enw *Bwlch Safn y Ci*!

Ym mhlwyf Llanychaearn, yn yr un ardal eto, mae un o weithredoedd stad Cwrt Mawr, Llangeitho, yn 1611, yn cofnodi bodolaeth *Tythyn Bwlch savan y kie*.

Gallwn fod yn weddol ffyddiog felly mai *Bwlch Safn y Ci* oedd hen enw'r bwlch sy'n gorwedd ar lan ddeheuol afon Ystwyth, ychydig i mewn o'r arfordir. Ond y cyfan sy'n weddill o'r enw heddiw yw fferm *Pen-y-bwlch* yn ei ben uchaf a phlas *Tan-y-bwlch* islaw, ynghyd â thraeth *Tan-y-bwlch* gerllaw.




**Map Arolwg Ordnans 1:50,000 (2022)**
© Arolwg Ordnans (100064713)

Er gwaetha'r chwedl onomastig, mae'n ymddangos i'r bwlch dderbyn yr enw oherwydd tebygrwydd ei ffurf i *safn* neu 'geg' ci - bwlch dwfn siâp 'V' tebyg i siâp ceg ci yn udo, efallai.

Ceir enw arall tebyg, a fyddai wedi ei enwi am yr un rheswm, rhwng blaen cymoedd Ceulan ac Einion, yng ngogledd y sir, sef *Bwlch Safn yr Ast*.

Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru
**www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru**

## Colofn **Elin Jones AS a Ben Lake AS**



Wrth i ni agosau at y Nadolig, rydym yn sylweddoli o bosib fydd y Nadolig yn wahanol iawn i nifer fawr ohonom eleni, wrth i dalu'r biliau hanfodol amsugno rhan fwyaf o gyllid y cartref, a'r gwasgfa ar aelwydydd a theuluoedd i'w deimlo yn fwy nag erioed.

Yn anffodus doedd dim llawer o gysur i'w gael o Ddatganiad yr Hydref y Canghellor, ac er cyhoeddwyd £1.2biliwn ychwanegol i Gymru, gwyddwn nad yw hyn yn mynd i fod yn ddigon i amddiffyn ein gwasanaethau hanfodol. Amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru bydd angen £4biliwn i wneud hyn. Roedd yn ofid hefyd i glywed fod y Canghellor wedi galluogi i'r cap prisiau ynni i godi hyd £3,000 ym mis Ebrill.

Er hyn oll, mi wnaeth Llywodraeth San Steffan gyhoeddi bydd cynnydd yn y Taliad Tanwydd Amgen o £100 i £200, ond does dim manylion o hyd o ran sut a phryd fydd y taliad yn cael ei wneud, sy'n rhwystredig.

Os fyddwch chi'n ei chael yn anodd i dalu eich biliau, cysylltwch â'ch cyflenwyr ynni yn y lle cyntaf. Mae cymorth gwych ar gael ar wefan Cyngor ar Bopeth (www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/) ac am gyngor ar ddyledion cysylltwch â nhw'n uniongyrchol drwy ffonio 01239 622020. Mae Cyngor ar Bopeth hefyd yn cynnal sesiynau dros y sir, ble gallwch siarad yn uniongyrchiol gyda'u swyddogion.

Os fyddwch chi'n teimlo yr angen i drafod eich gofidion mae yna nifer o sefydliadau allai fod o gymorth, gan gynnwys llinellau cymorth 24 awr y Samariaid 116 123 a CALL 0800 132 737.

Braf clywed fod nifer o bobl yn dod at ei gilydd i greu Mannau Croeso Cynnes dros y sir, fydd yn cynnig cyfle i bawb gynhesu a chymdeithasu mewn awyrgylch groesawgar iawn. Bydd pob un yn unigryw, ac ar amserau wahanol a cheir rhestr ohonynt ar wefan y Cyngor, neu gallwch eu ffonio ar 01545 570881.

Rydyn ni'n parhau i dderbyn ymholiadau a chwynion am wasanaethau bws y sir, gyda gofid yn ddiweddar hefyd am y gwasanaeth 585 o Aberystwyth i Lambed, wrth i'r Cyngor gael trafferth i ddenu cwmni bysus i redeg y gwasanaeth. Rydyn ni'n dau yn cwrdd â Gweinidog Llywodraeth Cymru i gael diweddariad am gynlluniau ar gyfer y sir a allwn eich sicrhau byddwn yn parhau i atgoffa'r Llywodraeth yn rheolaidd o'r trafferthion a'r teimladau sydd gan nifer fawr o'n etholwyr.

Mae'n braf gweld gymaint o ffeiriau Nadolig dros y sir yn arddangos llafur cariad crefftwyr a chynhyrchwyr Ceredigion yn eu holl ysblander. Cofiwch gefnogi drwy siopa mor lleol â phosib.

Sut bynnag fydd y Nadolig yn edrych i chi eleni, cadwch yn gynnes ac yn ddiogel a chofiwch gysylltu â ni os allwn fod o unrhyw gymorth. Dymuniadau gorau i chi gyd dros yr ŵyl, Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i chi oll.

# Bow Street

**SULIAU'R GARN**
**10.00**
*Rhagfyr*
**18** Bugail (Oedfa deuluol)
**25** Bugail (Oedfa yr Ofalaeth)

*Ionawr*
**1** Oedfa rithiol
**8** Bugail
**15** J Tudno Williams
**22** Oedfa yn Rehoboth
**29** Bugail

**SULIAU NODDFA**
**(Pob Oedfa am 10.00)**
*Rhagfyr*
**24** Gwylnos Noswyl Nadolig 11.30 p.m.
**25** Uno yn y Garn

*Ionawr*
**1** Richard Lewis
**8** Richard Lewis. Cymundeb.
**15** Cyfeillach yng ngofal Mair Lewis
**22** Richard Lewis
**29** Uno yn y Garn

**Capel y Garn**

Yn ychwanegol at yr addoliad wythnosol ar foreau Sul – gyda'n gweinidog, Y Parch Watcyn James, Miss Beti Griffiths, Mr Lyndon Lloyd a'r Parch. John Roberts yn ein harwain ar wahanol Suliau - a'r gyfeillach dros baned sy'n dilyn honno, bu cyfle i selogion a chyfeillion ddod at ei gilydd ar yr achlysuron canlynol.

Angharad Jones o Ganolfan Addysg Gofal Iechyd, Prifysgol Aberystwyth, oedd y wraig wâdd yn y Gymdeithas Lenyddol ar Dachwedd 18fed. Cawsom ganddi gyflwyniad diddorol, brwdfrydig yn amlinellu ei gyrfa ym myd nyrsio – ei hymroddiad gofalgar i'r gwaith a'i theyrngarwch i'r ardal lle magwyd hi. Y ddwy agwedd hynny ar ei bywyd sydd wedi ei harwain at ei swydd gyfredol yn sefydlu a datblygu'r Ganolfan newydd ym Mhrifysgol Aberystwyth. Dymunwn bob llwyddiant iddi yn ei gwaith gwerthfawr.

Daeth y chwiorydd ynghyd ddechrau'r mis yn ôl eu harfer i fwynhau paned a sgwrs ac i becynnu stampiau ar gyfer eu hanfon i Gymdeithas y Deillion - gwaith oedd yn arfer cael ei wneud gan Gymdeithas Help Llaw.

Ers canol mis Hydref mae côr pedwar llais, dan arweiniad Alan Wynne Jones, wedi bod yn cwrdd yn y capel ar brynhawniau Mercher i ymarfer carolau ar gyfer gwasanaeth y Gair a'r Geiriau a gynhelir yn y capel ar Ragfyr 18fed.

**Nadolig yng Nghapel y Garn**
**Rhagfyr**
**16** Nos Wener 7.30 'Dathlu'r Nadolig' yng nghwmni Aled Myrddin a'r teulu
**18** Dydd Sul 10.00 Gwasanaeth Nadolig teuluol dan arweiniad y Gweinidog
**18** Dydd Sul 6.00 Gwasanaeth 'Y Gair a'r Geiriau'
**25** Dydd Nadolig (Sul) 9.00 Oedfa Nadolig undebol dan arweiniad y Gweinidog Croeso cynnes i bawb

**Noddfa**

Mr. Gareth William Jones oedd yn gyfrifol am y Gyfeillach a gynhaliwyd ar y 27ain o



**Angharad Jones**

Dachwedd ac yr oedd wedi dewis Gwneud Dewisiadau fel thema ar gyfer y sesiwn gan fod gwneud dewisiadau, rhai anodd iawn weithiau, yn rhywbeth y mae pawb yn gorfod ei wneud o dro i dro. Seiliodd ei sylwadau ar yr hanesion am y dewisiadau y bu'n rhaid i rai o gymeriadau amlwg y Beibl eu gwneud yn eu tro; cyfeiriodd yn benodol at benderfyniad Abraham i fod yn barod i aberthu Isaac, at Jefftha yn gwneud adduned i aberthu y person cyntaf fyddai'n dod allan o'i dŷ os y byddai'n llwyddo mewn brwydrau ac yn aberthu ei unig ferch, ac at Iesu ei hun a'i aberth fawr yntau.

Yr oedd yr Oedfa ar y 4ydd o Ragfyr yng ngofal y Parchg Richard Lewis ac ar ei diwedd manteisiwyd ar y cyfle i ddymuno'n dda i John a Beryl Hughes yn eu cartref newydd yng Nghaerdydd ac i gydnabod eu cyfraniad gwerthfawr i bopeth cysylliedig â Noddfa ar hyd y blynyddoedd.

**Megan Leeding**

Trist iawn yw cofnodi marwolaeth Mrs Megan Leeding, 26 Maes Ceiro, (Malmeg gynt), ar y 18fed o Dachwedd yn 74 mlwydd oed. Cynhaliwyd gwasanaeth o ddiolchgarwch am ei bywyd a'i gwaith yn Amlosgfa Aberystwyh ar y 1af o Ragfyr. Yr oedd y gwasanaeth yng ngofal y Parchg Aled Lewis ac fe gyflwynwyd y deyrnged gan Gareth Richards ei mab yng nghyfraith. Cydymdeimlir yn ddiffuant â Bethan, Gareth a Sioned Eleri yn eu profedigaeth. Bydd trigolion Maes Ceiro yn falch o ddeall bod Mot a'r gath wedi ymgartrefu'n braf efo Bethan a'r teulu erbyn hyn!

**Ar Wella**

Mae'n dda gweld bod Mrs Jean Davies, 38 Maes Ceiro, yn gwella ar ôl cael pen-glin newydd yn ddiweddar. Nawr ei bod wedi cael gwneud yr ail ben-glin hyderir y bydd hi'n cerdded cystal â Paul erbyn y Gwanwyn.

**Clwb Gwawr y Pennau**

Nos Iau 10fed o Dachwedd bu nifer o aelodau'r clwb yn gweld sioe gerdd Ysgol Penweddig – Sŵn y Gân. Roedd y sioe'n arbennig a phawb wedi mwynhau'n arw. Diolch i Helena am drefnu. Nos Wener 11eg o Dachwedd bu Nest Gwilym, Rhian Nelmes a Delyth Huws yn cynrychioli'r clwb yng nghwis cenedlaethol Merched y Wawr. Yn Neuadd Goffa Aberaeron roedd y cwis yn cael ei gynnal



# Diffibriliwr

Bydd rhai wedi sylwi yn ddiweddar ar focs melyn sy'n cynnwys diffibriliwr wrth ymyl Capel Noddfa. Rydym yn ddiolchgar i Gyngor Tirymynach am ariannu y diffibriliwr yn y safle yma, hefyd Capel Noddfa am ei gysylltu i'r trydan er mwyn cadw yr offer yn gynnes a golau ynddo.

Ar fore Gwener 9fed o Ragfyr daeth criw o ryw bedwar deg o'r cyffiniau yn ogystal a rhai aelodau o'r capel am hyfforddiant diffibriliwr a CPR. Nick Aitken o 'first2aid' ar ran CalonHearts oedd yr hyfforddwr. Cofiwch os nad ydych wedi derbyn hyfforddiant i ddefnyddio'r offer bydd y teclyn diffibriliwr yn rhoi cyfarwyddiadau sut i'w defnyddio.

Er gwybodaeth mae na sawl diffibriliwr ym mhentre Bow Street: yng Nghlwb Pêl-droed y Piod; Neuadd Rhydypennau; Y Spar, Bow Street Capel Noddfa, Bryncastell a Gorsaf Bow Street.



i ranbarth Ceredigion a daeth y merched yn gydradd 3ydd o blith 26 o dimau yn y rhanbarth. Llongyfarchiadau!

**Merched y Wawr**
Cawsom y pleser o groesawu Cangen Genau'r-glyn atom mis yma. Mae nifer o'r aelodau yn dathlu yn ystod y mis Brenda Jones, Ann Jones a Mair Davies yn dathlu pen blwyddi arbennig a Joyce Bowen yn dathlu priodas Aur  Llongyfarchiadau iddynt i gyd. Daeth y tim cwis yn 4ydd - da iawn chi.



Ein gwr gwadd oedd Tomos Morgan Siop Inc. Soniodd fel mae ei yrfa wedi datblygu, roedd ganddo diddordeb mewn celf ers yn ifanc a chael gradd yn y celfyddydau yn Lerpwl, a gweld bwlch yn y farchnad am ddeunydd Cymraeg. Bu yn byw yn Lloegr am 10 mlynedd ond bellach wedi dychwelyd i Llandre. Eglurodd i ni y broses o ddylunio cardiau mewn sawl gwahanol gyfrwng fel acrylic, dyfrlliw, a phensil, a sut oedd trosglwyddo hyn i'r cyfrifiadur. Cawsom i gyd gyfle i greu ein cerdyn ein hun. Talwyd y diolchiadau gan Marian Hughes. Gaenor a Mair oedd wedi trefnu paned ac enillydd y raffl oedd Nans Morgan.

**Erthygl am Gwyneth Hunkin**
Ceir erthygl Cofio safiad Gwyneth Wiliam ( y ferch gyntaf i'r carchar dros y Gymraeg) gan Geraint Jones yn rhifyn cyfredol y cylchgrawn *Y Faner Newydd 102 (2022) t.36-37*

**Bow Street a'r Wal Goch**
Fe aeth criw niferus o glwb pêl-droed Bow Street i Qatar am ryw wythnos a hanner i gefnogi tîm Cymru ym mhencampwriaeth Cwpan y Byd – ein hymddangosiad cynta yn y twrnament hwn am 64 mlynedd.

Er siom a thristwch y canlyniadau cymysg, fe wnaeth y criw o ardal *Y Tincer* fwynhau'r profiad yn fawr iawn. Roedd y tywydd yn braf (tua 30 gradd bob dydd!), a’r croeso gan drigolion Doha yn hynod o dwymgalon. Roedd cymysgu a chymdeithasu gyda chefnogwyr y 31 gwlad arall sy'n rhan o'r bencampwriaeth yn fythgofiadwy, a gweld baner Cymru ym mhobman yn wych – yn sicr fe wnaeth y gwledydd eraill ddysgu tipyn am Gymru, a chlywed y Gymraeg ar lwyfan fyd-eang.

Un o’r uchafbwyntiau, yn ôl Wyn Lewis, cadeirydd y Piod, oedd gweld ymateb cefnogwyr gwledydd eraill i'r gân 'Yma o Hyd’ – roedd y Brasiliaid yn hoff iawn ohoni!

Ymlaen â ni, felly, i'r Almaen ac i Euro 2024!

**Diolch**
Dymuna Anwen, Hywel ac Elin (3 Brynmeillion, Bow Street), a Siân a'r teulu (chwaer Anwen ym Mhontypridd) ddiolch yn fawr am y cardiau a'r geiriau hynod garedig o gydymdeimlad dderbyniwyd adeg colli Dad (Arwyn Pierce, Llandysul) ddiwedd Hydref. Bu’r cyfan yn galondid ac yn gymorth mawr i'r teulu.

## Dan Do

Gwelwyd  Sonia Ellis Jones ar y rhaglen Dan Do y ystod y mis yn siarad am y ty a’r ardd gyda’r cyflwynydd Mandy Watkins.



# Cwis Nadolig Y Tincer

**Cyfle eleni eto i gael ychydig o hwyl ar ôl bwyta’r pwdin Nadolig ac ennill gwobr o £10!**

Eleni penderfynodd y Tincer bach fynd am dro ar hyd strydoedd Aberystwyth. Tybed allwch chi ddyfalu pa deg stryd neu ffordd yr ymwelodd y Tincer â nhw. Gan ei fod yn garedig, mae croeso i chi roi’r enw yn y Gymraeg neu’n Saesneg.

Anfonwch eich atebion i gyrraedd cyn hanner dydd, dydd Mercher, Ionawr 4, 2023 at: **Gareth William Jones**, Hafle, Penrhiw, Bow Street, Ceredigion SY24 5BA neu os dymunwch anfonwch eich deg ateb at **gwjones99@aol.com**

Os bydd mwy nag un ateb cywir, yna, fel arfer, rhoir yr enwau yn het y golygydd a’r enw cyntaf i’w dynnu allan fydd yn ennill y £10. Pob lwc!

1. Gan fod y Tincer bach wedi cael cawod y bore hwnnw, ar waethaf enw’r stryd, dim ond ei ddillad wnaeth e olchi mewn adeilad yno. Pa stryd oedd hi?
2. Wrth sylwi ar enw’r ffordd hon meddyliodd y Tincer os oedd awdur y nofel Un Nos Ola Leuad neu bennaeth hen lwyth Prydeinig wedi bod yn sál mewn adeilad mawr arni. Go brin meddyliodd. Mor anhebyg a chael clun newydd o fewn dwy flynedd!
3. Wrth ddod rownd y gornel heibio’r dafarn meddyliodd y Tincer tybed ai hen actor neu rhywun o dref hynafol yng wlad Groeg roddodd yr enw i’r stryd hon. Aeth ymlaen tua’r orsaf yn pendroni. Enwch y stryd!
4. Wrth fynd i drin ei ddannedd meddyliodd y Tincer os adeiladwyd y Llan gerllaw gyda cherrig o ynys yn Dorset. Tybed ar ba stryd oedd y Tincer bach?
5. Roedd y Tincer yn hanner disgwyl gweld Beca Lyne-Pirkis yn y stryd hon ond na nid oedd yno. Dim ond ambell i gristion yn mynd tuag at ddau gapel.
6. Roedd y Tincer yn ofni y byddai duw’r tân yn ei losgi’n fyw wrth iddo droedio’r stryd hon ond trwy lwc nid oedd yno a doedd dim pedol yn agos i’r lle chwaith! Dim ond genod sy’n codi’n gynnar.
7. Er ei fod wedi ei siomi na chafodd brofi’r halen er llês ei iechyd yn y stryd hon roedd y Tincer wrth ei fodd gyda’r stecen gafodd gan Rob. Cafodd lun o’r golygydd ar ei fraich hefyd tra roedd yno.
8. Dwi’n talu digon o drethi, cwynodd y Tincer, gan ofni y bydden nhw’n casglu treth am gerdded ar hyd y stryd hon. Ond trwy lwc roedd yr adeilad casglu wedi hen ddiflannu.
9. Ai pobl yn ysgwyd roddodd enw i’r stryd hon meddyliodd y Tincer neu pobl oedd yn chwilio am y canol llonydd? Na, pobl oedd yn trin croen siwr fod. Enwch y stryd.
10. Wrth ffarwelio â’r dref sylwodd y Tincer ar ffordd nad yw’r bobl sy’n byw arni o bosib byth yn cwyno, byth yn cael haint na mynd yn hen. Bro dedwydd yw hon mae’n siwr meddyliodd y Tincer. Aeth tuag adre’n teimlo’n ifanc iawn. Enwch y ffordd.

# Ysgol **Rhydypennau**

**Codi Arian**

Roedd hi'n ddiwrnod Plant Mewn Angen ar y 18fed o Dachwedd. Yn ystod y p'nawn, rhoddwyd cyfle i blant blwyddyn 6 drefnu a gosod stondinau yn y neuadd er mwyn gwerthu nwyddau i blant, rhieni a ffrindiau'r ysgol. Ar ddiwedd y dydd codwyd £422. Ardderchog!

**Diwrnod coch gwyn a gwyrdd**

Ar y 25ain o Dachwedd, i godi arian tuag at Urdd Gobaith Cymru, dathlwyd 'Diwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd'. Ac felly, fe wisgodd pawb liwiau'r Urdd am y diwrnod. Ymgasglodd pawb yn y neuadd yn ystod y bore gan fod yr achlysur hwn yn cyd-fynd gydag ail gêm Cymru yn y gystadleuaeth. Fel allwch chi ddychmygu, roedd y neuadd yn ferw o liw a chyffro! Casglwyd £105! Da iawn wir!

**Wythnos Gwrth-fwlio**

I godi ymwybyddiaeth o barch a goddefgarwch tuag at eraill, penodwyd diwrnod arbennig i'r plant ddod i'r ysgol wedi gwisgo sanau 'od'. Trefnwyd gweithgareddau amrywiol er mwyn dathlu gwahaniaethau a sbarduno sgyrsiau fod hi'n gwbl dderbyniol i fod yn wahanol.

**Cwpan y Byd**

I ddathlu'r ffaith fod tîm pêl droed Cymru wedi cyrraedd rowndiau terfynol Cwpan y Byd eleni, trefnwyd i blant CA2 fynychu'r



Llyfrgell Genedlaethol am y bore er mwyn canfod gwybodaeth pellach am hanes sefydlu'r tîm Cenedlaethol gant a hanner o flynyddoedd yn ôl. Braf oedd cael cyfle i bori trwy hen archifau, gwylio hen glipiau ffilm a darllen stôr o bapurau newydd am hynt ac helynt y tîm trwy'r degawdau.

Nôl yn yr ysgol ac i gyd fynd gyda hyn, cafodd plant blwyddyn 3 a 4 sgwrs rithiol gyda Tomos Williams, cyn ddisgybl yr ysgol sydd bellach yn dysgu mewn Ysgol Rhyngwladol allan yn Qatar. Hoffa'r ysgol ddiolch o galon i Tomos am roi o'i amser; roedd hi'n ddiddorol iawn gwrando ar ei brofiadau amrywiol allan yn y Dwyrain Canol.

**Adran yr Urdd.**

Mae nosweithiau Adran yr Urdd bellach wedi ail ddechrau ar ôl yr hanner tymor. Rydym yn cwrdd bob nos Fercher gyda plant blynyddoedd un, dau a thri yn cymryd eu tro â blynyddoedd pedwar, pump a chwech. Mi





fydd y gweithgareddau difyr yn parhau trwy'r gaeaf tan y Pasg.

**Hysbys**

Mi fydd criw o blant yr ysgol yn canu carolau a chaneuon 'dolig ar fore'r 20ed o Ragfyr yn archfarchnad Tesco rhwng 10:30 ac 11:30. Y gobaith yw codi arian tuag at gronfa'r ysgol. Croeso i chi ddod i gefnogi!

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr Y Tincer!

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau:
*http://www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk*
*@YGRhydypennau-dilynwch ni ar drydar.*









# Ysgol **Craig yr Wylfa**













**Siarter iaith**
**Ymweliad Awdures**

Ers y pandemig, rydym wedi dod i arfer defnyddio TEAMS fel ffordd o gyfathrebu a rhannu gwybodaeth. Ac er bod elfennau rhwystredig i hynny, mae wedi hwyluso gallu ymweliadau rhithiol. Yn ystod y mis aeth disgyblion Blwyddyn 6 am dro i Ysgol Tal-y-bont, er mwyn cael gweithdy rhithiol gan yr awdures boblogaidd Manon Steffan Ros. Roedd y plant wrth eu boddau'n gwrando ar Manon yn trin a thrafod ei llyfrau *Fi a Joe Allen* a *Fi ac Aaron Ramsey* a sut oedd dod i hoffi pêl-droed wedi rhoi syniadau newydd a gwahanol iddi wrth fynd ati i ysgrifennu ar gyfer plant. Roedd hyn i gyd ynghanol y bwrlwm Cwpan y Byd ac roedd yn berthnasol iawn i ddiddordeb y disgyblion. Roedd y weithgaredd yma eto'n rhan o brosiect Pont yr Wylfa ble bod disgyblion Ysgol Craig yr Wylfa ac Ysgol Tal-y-bont yn ymuno i gryfhau'r berthynas rhwng y ddwy ysgol.

**Prosiectau Sirol**

Rydym yn ffodus iawn fod swyddogion Siarter Iaith Ceredigion yn meddwl am brosiectau arbennig i'n hysgolion. I gyd-fynd gyda Chwpan y Byd gwahoddwyd pob ysgol i weithio gyda'r Prifardd Ceri Wyn Jones a chreu cwpled yr un ar gyfer rap arbennig i ddymuno'r gorau i ymdrech tîm pêl-droed Cymru. Dyma gwpled Ysgol Craig yr Wylfa –

Cefnogwyr yn canu a bloeddio tra mad,
Colli neu ennill, cefnogi ein gwlad!

Hefyd gwahoddwyd pob ysgol i ddysgu pennill; o'r gân 'Yma o Hyd', ffilmio'r ysgol yn ei chanu a wedyn rhoddwyd y cyfan at ei gilydd yn gelfydd i gyd-ganu gyda'r dyn ei hun – Dafydd Iwan. Da iawn chi blant am ddysgu'r geiriau mor gyflym ac am ganu mor angerddol.

Hefyd i gyd-fynd gyda Chystadleuaeth Cwpan y Byd trefnwyd Gŵyl Sgiliau Pêl-droed i Blwyddyn 3 a 4 ar gaeau'r Brifysgol yn Aberystwyth gan griw Ceredigion Actif. Cafodd pawb tipyn o hwyl wrth ymarfer eu medrau pêl.

Ac ar ben hynny i gyd, trefnwyd Jambori gan Urdd Gobaith Cymru i bob ysgol yng Nghymru ymuno gyda'i gilydd i ganu rhai o'n caneuon mwyaf adnabyddus – llawer o hwyl a sbri, fel y gallwch ddychmygu.

**Ysgol y Gymuned**
**Ffair Elusennau**

Hoffwn ddiolch yn fawr i bawb am helpu gyda'r stondin ysgol yn y ffair brysur – yn rhieni a phlant! Roedd hi'n hyfryd i weld cymaint o brysurdeb yn y Neuadd Gymunedol ac ar ein stondin eleni eto ar ôl cyfnod o dair mlynedd o fethu cynnal y Ffair. Diolch am gefnogi.

**Carnifal**

Mae'r ysgol yn ffodus iawn o gael nawdd sylweddol gan Bwyllgor y Carnifal yn flynyddol ac rydym yn ddiolchgar iawn unwaith eto eleni o dderbyn swm anrhydeddus iawn. Rydym wedi penderfynu gwario'r arian eleni ar wella ein darpariaeth o offerynnau cerddorol gan fod y rhai sydd gennym ar hyn o bryd wedi hen weld dyddiau gwell. Diolch yn fawr iawn i chi a phob hwyl gyda'r trefniadau ar gyfer y flwyddyn nesaf.

**Diwrnod y Cofio**

Cawsom gyfraniadau gwych i'n gwersi wrth gofio am ryfeloedd byd y gorffennol a'r presennol. Diolch i'r athrawon am feddwl a weithgareddau diddorol a gwahanol i bwysleisio'r negeseuon pwysig.

**Sŵn y Gân**

Diolch yn fawr i Ysgol Penweddig am y gwahoddiad caredig i weld y sioe gerdd arbennig yma. Roedd hi'n braf iawn bod yn rhan o gynulleidfa mor fawr yn gwylio'r perfformiadau gwych gan y disgyblion uwchradd.

**Gwersi Lles**

Mae pob ysgol yng Nghymru'n dilyn cwricwlwm newydd ers mis Medi. Mae rhai newidiadau pwysig iawn yn y cwricwlwm newydd ac un ohonynt yw gwella'r ddarpariaeth am gydberthynas a pwysigrwydd trin pawb gydag urddas a pharch. Yn ystod y mis aeth disgyblion Blwyddyn 6 Ysgol Craig yr Wylfa draw i ddysgu mwy am y pwnc gydag Ysgol Tal-y-bont fel rhan o brosiect Pont yr Wylfa.

**Ysgol Iach**
**Wythnos Gwrth-fwlio**

Yn ystod mis Tachwedd roedd hi'n wythnos gwrth-fwlio cenedlaethol ac fe fanteisiodd yr ysgol ar y cyfle i gynnal trafodaethau bywiog am y gwahaniaeth rhwng bod yn gas a bwlio. Roedd pawb wedi mwynhau'r weithgaredd o beintio cerrig gyda negeseuon caredig. Da iawn chi blant am ymateb mor bositif i'r gwersi.

**Diwrnod Plant Mewn Angen**

Eleni roedd y Cyngor Ysgol wedi penderfynu gofyn i bawb wisgo pyjamas a/neu ddod mewn gwallt gwirion i'r ysgol ar ddiwrnod Plant Mewn Angen. Cafwyd diwrnod hwyliog iawn gyda llawer o weithgareddau bywiog i godi ymwybyddiaeth o'r achos da. Diolch yn fawr i chi gyd am eich cyfraniadau hael.

**Sbwriel**

Roedd Mr Jones y Pennaeth yn siomedig iawn i dderbyn llythyr gan aelodau'r Cyngor Ysgol i dynnu sylw at y sbwriel oedd yn cronni ar yr iard. Ond roedd yn ddiolchgar iawn hefyd i'r criw gweithgar a fu wrthi'n ddiwyd yn casglu'r sbwriel ac yn ei roi yn y biniau cywir.

# Ysgol **Pen-llwyn**

**Gweithdy dawns CA2**
Cafodd dosbarth 2 sesiynau hyfryd o ddawnsio gyda Anna ap Robert-Buon nhw'n creu dawns gan ddefnyddio symudiadau byddent yn debygol o weld yn y mwyngloddiau. Defnyddiwyd spardun ar ôl ein ymweliadau i Gwmystwyth a Cwmsymlog. Braf gweld y disgyblion yn defnyddio dychymyg ac yn barod I greu campweithiau mewn grwpiau bach.

**Sŵn y Gân**
Braf iawn oedd ymweld â Ysgol Penweddig i wylio Sioe fyw gan ddisgyblion yr Ysgol. Sioe ar sail 'Sound of Music' oedd hi-diolch am y gwahoddiad i ymuno yn y gynulleidfa.

**Jambori Cwpan y Byd**
Fel rhan o ddathliad cwpan y byd cafwyd Jambori ar lein gyda Mudiad yr Urdd a Stwnsh yn ogystal a hynny cafodd pawb y cyfle i ganu gyda Dafydd Iwan ar y sgrin!

**Wythnos atal bwlio**
Er mwyn cefnogi'r ymgyrch atal bwlio eleni fe wisgodd y disgyblion sanau od i'r ysgol. Cafwyd hefyd gyfle i gwblhau heriau yn ystod y dydd a gwers fyw ar lein ar y thema eleni sef 'Estyn allan'.

**CA2 Llyfrgell Gen**
Fel rhan o'u gwaith ar Gwpan y Byd 2022 cafodd plant CA2 y cyfle i fynychu gweithdy yn y Llyfrgell Genedlaethol. Cawsant y cyfle i edrych ar bethau o gasgliad pêl-droed y llyfrgell e.e. hen erthyglau bapur, pamffledi, a.y.b. Dysgodd y plant a'r staff lawer yn ystod y gweithdy a hoffwn roi diolch i'r Llyfrgell Genedlaethol am ei gynnal.

**Gŵyl Sgiliau Bl 3 a 4**
Buodd blwyddyn 3 a 4 yn ffodus iawn i fynychu'r ŵyl aml-sgiliau yn y Brifysgol. Cafwyd bore llawn hwyl yn cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau gan gynnwys pêl droed, rygbi, dawnsio a chriced. Diolch i Ceredigion actif am drefnu.

**Cwpled Cwpan y Byd**
Buodd disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn ffodus i fod yn rhan o ysgrifennu cwpled ar gyfer cefnogi tîm Cymru yng Nghwpan y Byd. Daeth criw ffilmio i'r ysgol i recordio'r plant yn adrodd eu cwpled o dan oruchwyliaeth Anwen Eleri. Atgof fydd yn aros yn hir yng nghof y disgyblion.

**Plant mewn angen**
Eleni eto buodd plant yr ysgol yn brysur yn codi arian i blant mewn angen. Buodd y Cyngor ysgol yn cynnal cystadleuaeth dyfalu sawl losin smotiog oedd yn y jar-llongyfarchiadau i Phoebe am ddyfalu i'r rhif agosaf. Gwisgodd pawb eu pyjamas a chyfrannu yn hael-da iawn chi











Croeso i deuluoedd

6 teledu gyda Sky Sports

Lle i eistedd tu allan a bwyty mawr

Bwrdd 'pool' a byrddau darts

Bwyty a Bwyd wedi'i gludo ar gael am ddim

TAFARN Y ROOSTERS
HOME OF/CARTREF I CPD PENRHYNCOCH FC

01970 828 992

# Ysgol **Penrhyn-coch**

**Sŵn y Gân**
Yr oedd Blwyddyn 6 wedi cael gwahoddiad gan Ysgol Penweddig i fynd i weld ei sioe gerdd eleni sef Sŵn y Gân (The Sound of Music). Am sioe a hanner! Da iawn i'r staff a'r disgyblion am eu gwaith campus.

**Jambori Pêl Droed yr Urdd**
Mwynhaodd bawb canu yng nghwmni criw Stwnsh a Dafydd Iwan ei hun yn jambori yr Urdd ar ddydd Iau y 10fed o Dachwedd i ddathlu dechrau taith tîm pêl droed Cymru yng Nghwpan y Byd.

**Ffilmio**
Cafodd blwyddyn 6 llawer o hwyl yn ffilmio eu rap o gwpled a gyfansoddwyd ar gyfer "Cerdd Cymru Am Byth Ysgolion Ceredigion" a wnaethant er mwyn cefnogi tîm pêl droed Cymru yng Nghwpan y Byd. Lansiwyd y fideo ar youtube ar yr 21ain o Dachwedd. Dyma'r ddolen i roi yn y porwr er mwyn ei weld: https://youtu.be/I_0wqw6JABQ

**Sul Y Cofio**
Bu Jac yn cymryd rhan yng ngwasanaeth flynyddol Sul y Cofio yn y pentref. Pwysig oedd dangos ein diolch i'r rhai sy'n ymladd a wedi ymladd drosom mewn rhyfeloedd ar gyfer ein heddwch.

**Trip Addysgiadol**
Roedd plant CA2 wedi mwynhau y profiad o fod yn dditectifs am y bore wrth ddarganfod mwy am bêl droed Cymru drwy edrych ar arteffactau hanesyddol yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth. Diolch i'r staff am eu hamser.

**Ymwelydd**
Diolch yn fawr iawn i'r Cynghorydd Wyn Thomas am ymweld â ni er mwyn trafod ein tudalen ar Dafydd ap Gwilym yn y comig 'Cynefin y Cardi'. Fe wnaeth blwyddyn 5 a 6 y dudalen yn Nhymor yr Haf ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron. Braf oedd cael trafod ein gwaith a chael sgwrs hyfryd gyda'r Cyng. Wyn Thomas.





**Wythnos Atal Bwlio**
Ar gyfer wythnos atal fwlio fe wnaethom ni amryw weithgaredd yn ystod yr wythnos gan gynnwys gwisgo sanau od ac ymuno â wers byw y BBC.

**Diwrnod Plant Mewn Angen**
Gwisgwyd pyjamas i'r ysgol i godi arian ar Ddiwrnod Plant Mewn Angen – diolch byth ni wnaeth neb gysgu! Hoffwn fel ysgol ddiolch i'r rhieni am eu parodrwydd i helpu gyda'r stondin cacennau ar ddiwedd y dydd. Diolch i bawb fe wnaethom ni godi £299.01 - cyfanswm wych!



**Gweithgareddau TGCh**
Yn ystod ein thema 'Cwpan y Byd' yr ydym wedi bod yn gweithio ar ein sgiliau technoleg. Fe wnaethom ni mwynhau creu gêm pêl droed ar 'Scratch Junior' – diolch i Luke Clement, Technocamps am y wers. Fe wnaethom ni hefyd mwynhau y sialens o greu algorithm Yma o Hyd ar Microbits – diolch o Eryl Jones am yr arweiniad.




**Gŵyl Sgiliau Chwaraeon bl 3 a 4**
Cafodd disgyblion blwyddyn 3 a 4 y cyfle i ymarfer a a mwynhau sgiliau chwaraeon ar dir Prifysgol Aberystwyth. Diwrnod i'w gofio!

**Gwylio Gêm Pêl Droed**
Daeth pawb ynghyd yn neuadd yr ysgol i wylio Cwpan y Byd, gêm hanesyddol rhwng Cymru ac Iran. Sgôr siomedig ond oedd y plant wrth eu boddau bod ein gwlad fach ni wedi cyrraedd y safon i chwarae yn y gystadleuaeth. Da iawn i bob un o'r chwaraewyr am wneud eu gorau glas. Roedd y balchder yn amlwg ymysg y plant.

**Cyfweliad gyda Siôn Morgan**
Diolch yn fawr iawn i Siôn Morgan, newyddiadurwr Wales Online am gyfweld â CA2 o Qatar er mwyn trafod am ei waith yn Qatar ac am Gwpan y Byd. Cyfweliad diddorol tu hwnt.



# Tasg y Tincer

Daeth llond tîm o luniau drwy'r post – diolch i chi, a gobeithio eich bod yn dal i fwynhau'r bencampwriaeth, er gwaetha'r siom ... ymlaen â ni at yr Ewros! Dyma'r enwau: Tesni Davies, Llanilar; Math, Lois a Celt Roberts, Bont-goch; Efa Evans, Penrhyn-coch; Elsi Wynn Lewis, Capel Bangor; Tirion a Carian Evans, Y Borth; Elen Evans, Penrhyn-coch; Steffan Evans, Capel Bangor; Macs Evans, Y Borth; Ania Wynn Hughes, Penrhyn-coch.

Dy enw di, Steffan Evans, ddaeth o boced y dyfarnwr. Llongyfarchiadau!



Steffan

Beth yw eich hoff beth am yr adeg hon o'r flwyddyn? Ar wahân i'r pethau amlwg – yr addurniadau, yr anrhegion a'r cardiau, cyngerdd neu wasanaeth ... heb anghofio ymweliad Siôn Corn, wrth gwrs – dwi'n hoff iawn o weld yr holl oleuadau'n disgleirio. Tybed ydech chi wedi gweld y teclyn sydd yn y llun o'r blaen? Yr enw arno yw menorah, ac mae Iddewon dros y byd yn cynnau'r canhwyllau sydd ar y menorah yr adeg hon o'r flwyddyn, er mwyn dathlu gŵyl arbennig. Enw'r ŵyl bwysig hon yw Hanukkah, ac mae'n para am wyth diwrnod, gan ddechrau eleni ar 18 Rhagfyr a dod i ben ar 26 Rhagfyr. Fel ein Nadolig ni, mae Iddewon yn rhoi anrhegion i'w gilydd, yn canu caneuon arbennig, ac yn bwyta pethau blasus! Eleni, beth am ddweud 'Hanukkah Sameach!' i'ch teulu a'ch ffrindiau, sef 'Hanukkah Hapus!', neu 'Chag Urim Sameach!' – 'Gŵyl Goleuni Hapus!'



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn | Oed

Y mis hwn, lliwiwch lun y menorah a'r plant yn cynnau'r canhwyllau. Anfonwch eich gwaith i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn 6 Ionawr. Ta ta tan toc, a Nadolig llawen i chi i gyd!

ISSN 0963-925X

9 770963 925009 >

*Rhif 454 | Rhagfyr 2022*